# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 554 · **Mehefin 2024** · 70c


## Everest Er Cof am Hefin

Mae gan nifer o bobl yr ardal atgofion o Hefin Hughes, neu Hefin Weldar fel oedd pawb yn ei adnabod. Dipyn o gymeriad, bob amser efo gwên a stori werth ei chlywed.

Mae hi dros ddwy flynedd ers i Hefin ein gadael erbyn hyn a bu ei fab Dylan a'i ffrindiau yn cynllunio her codi arian enfawr er cof amdano.

Cwm Idwal oedd cartref ysbrydol Hefin felly roedd hi'n addas iawn mai sialens yn y mynyddoedd cyfagos fyddai y ffordd orau o dalu teyrnged iddo.

Aeth Dylan Hughes a'i ffrindiau, Dylan 'Jumbo' Williams ac Arwyn 'Giles' Griffith ati i gynllunio her fynydda fyddai yn cyfateb â dringo uchder Everest dros 29000 troedfedd. Ond nid hynny yn unig, roedd yr hogia am gwblhau her 15 Copa Uchaf Cymru yr un pryd, a gwneud hynny ddwywaith.



Doedd yr amodau ddim yn ffafriol haf diwethaf, felly cytunwyd i fynd i'r afael a'r her ar Fai 11 eleni.

Cychwynwyd y daith o Ben y Pas, uwchben Llanberis yn y tywyllwch am 4 y bore gan ddringo'r Wyddfa a Crib Goch cyn disgyn i Nant Peris a dringo Elidir Fawr a'r Glyderau wedyn. Mater bach wedyn o fynd fyny a lawr Tryfan cyn disgyn yn ôl i'r A5 a thaclo'r Carneddau i orffen y 15 copa.

Mae hon yn ei hyn yn dipyn o gamp ond roedd yr hogia angen troi nôl a gwneud yr un peth eto. Prawf go iawn i'r corff a'r ymennydd. Roedd na nifer o bobl wedi dringo rhai o'r mynyddoedd efo'r hogia i'w cefnogi yn ystod y dydd ac roedd hynny yn hwb mawr. Ond roedd cyfnodau anodd, unig ar y mynyddoedd yn y tywyllwch hefyd a fyddai yn herio dyfalbarhad ac ysbryd yr hogia' go iawn.

Fel tasai 15 copa ddwywaith ddim yn ddigon, doedd yr hogia' ddim cweit wedi cyrraedd uchder Everest. Felly, ar ôl chydig iawn o orffwys, roedd rhaid rhoi y sgidia' yn ôl 'mlaen a dringo'r Wyddfa deirgwaith i gyrraedd y nod.

Efo'r coesau yn gwegian a'r traed mewn darnau, cwblhaodd yr hogia' yr her gan gyrraedd uchder Everest a cherdded 64 milltir mewn 'chydig dros 31 awr. Her gorfforol, meddyliol anferthol a phrofiad emosiynol iawn i Dylan a'r hogia' gydag ysbryd Hefin efo nhw bob cam.

Chwarae teg i'r hogia am ei chwblhau. Bu dipyn o godi arian i'r her a'r bwriad ydy cael giât arbennig wedi ei gwneud a'i rhoi hi rywle yn y Dyffryn fel teyrnged i Hefin.

Os hoffech gyfrannu i'r achos, gallwch wneud ar y we: gofundme.com a chwiliwch am Dylan Hughes (Her Er Cof am Hefin) https://gofund.me/d8d4bad3 neu drwy dudalen Dylan ar Facebook



# Llais Ogwan

**Rhif 554**
**Mehefin 2024**

### Panel Golygyddol

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com
**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com
**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk
**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com
**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk
**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com
**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com
**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com
**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk
**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

### Swyddogion

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
**Owain Evans**

Y golygydd ym mis **Gorffennaf** fydd
**Rhys Llwyd.**
Tonteg, 13 Talycae, Tregarth,
Bangor, Gwynedd, LL57 4AE
01248 601606
Ebost: rmll42@live.co.uk

Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn,
29 Mehefin os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu Nos Iau, 18 Gorffennaf,
yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT
Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD
YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD
CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Mehefin**

| | |
|---|---|
| £30.00 | (109) Helen Wyn Jones, Erw Las, Bethesda. |
| £20.00 | (117) Gwenda Bowen, Stryd Hir, Gerlan. |
| £10.00 | (56) Ann Evans, Penisarwaen. |
| £5.00 | (165) Meirwen Williams, Star, Gaerwen. |

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

### Rhoddion i'r Llais

£20.00 William Parry, Ty'n y Graig, Llangristiolus, Môn.
£20.00 Er cof am Dylan Rowlands gan mam a dad a'r teulu, Erw Las.
**Diolch yn fawr.**

## Dyddiadur y Dyffryn

### Mehefin

21 Sain, Cerdd a Chân. Eglwys Sant Cedol, Pentir.
24 Te Mefus Capel Bethlehem, Talybont. Y Festri am 7.00.
25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
29 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Cefnfaes (Llawr Uchaf). 10.00 – 12.00.

### Gorffennaf

01 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
01 Taith Gerdded Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Cychwyn am 6.00.
04 Etholiad Cyffredinol.
06 Merched y Wawr Tregarth. Gwibdaith i'r Ysgwrn.
09 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
16 Neuadd Ogwen. Arrested Development.
18 Noson Gasglu a Dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
23 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
30 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

### Awst

22-24 Gŵyl Ara Deg yn Neuadd Ogwen.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Elwyn Jones & Co**

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000

# Arddangosfa Dathlu Hanner Canmlwyddiant Llais Ogwan 1974-2024

Ym mis Hydref eleni, bydd Llais Ogwan yn dathlu hanner can mlynedd ers cyhoeddi'r rhifyn cyntaf o'n papur bro ym mis Hydref 1974 – y papur bro cyntaf yma yn y gogledd. I ddathlu'r achlysur arbennig hwn, cynhelir arddangosfa o ôl-rifynnau Llais Ogwan dros yr hanner can mlynedd diwethaf yn Neuadd Ogwen rhwng 10.00 – 4.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Hydref 22ain, hyd at ddydd Sadwrn, Hydref 26ain 2024.

Sefydlwyd y papur gyda'r amcanion canlynol: i hybu darllen Cymraeg yn Nyffryn Ogwen a'r cylch trwy gynhyrchu misolyn uniaith Gymraeg amhleidiol.

i feithrin ysgrifenwyr yn yr iaith Gymraeg.

i hyrwyddo brogarwch ac atgyfnerthu'r ymdeimlad o fod yn gymuned Gymraeg.

Bydd paned ar gael yn Neuadd Ogwen i bobl fydd yn ymweld â'r arddangosfa i weld hen luniau a hen rifynnau o'r Llais, a hel atgofion am rai o'r digwyddiadau yn y Dyffryn dros y cyfnod hwn. Byddwn hefyd yn gwahodd ysgolion y Dyffryn i drefnu ymweliad â'r Arddangosfa.

Edrychwn ymlaen at weld ein holl ddarllenwyr a phawb sydd wedi cynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal ein papur bro dros y 50 mlynedd Diwethaf.

Nodwch yr achlysur yn eich dyddiadur.

# Cyfanswm grantiau gan Elusen Ogwen yn mynd dros £50,000




Sefydlwyd Elusen Ogwen ym mis Rhagfyr 2020 er mwyn helpu i ddosbarthu peth o elw Ynni Ogwen, er budd y gymuned leol. Yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr i gymeradwyo pum grant newydd, gyda'r pumed, i Ganolfan Tregarth, yn mynd â chyfanswm y grantiau i £54,249. Dywedodd Lowri Williams, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, ei bod yn falch iawn o gyhoeddi'r grantiau diweddar a'i bod yn edrych ymlaen at fedru cynnig cymorth pellach i grwpiau lleol yn y dyfodol.

Ers dyrannu'r grant cyntaf ym mis Awst 2021, i Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru, mae Elusen Ogwen wedi talu 28 o grantiau. Mae'r elusen yn cynnig grantiau o hyd at £3,000 ar gyfer grwpiau cymunedol yn yr ardal a wasanaethir gan Gynghorau Cymuned Bethesda, Llanllechid a Llandygai. Mae rhestr lawn o feini prawf grantiau'r elusen i'w gweld ar ei gwefan, ond yn fras nod yr elusen yw ariannu prosiectau sy'n gwella'r amgylchedd lleol, yn arbed ynni, neu'n helpu i leihau tlodi. Dros y pedair blynedd diwethaf, maent wedi helpu i ariannu paneli solar a goleuadau solar, ffenestri gwydr dwbl, systemau casglu dŵr glaw, gweithgareddau haf i blant lleol, goleuadau LED rhad-ar-ynni, pecynnau o eitemau arbed ynni i deuluoedd lleol a llawer iawn mwy!

Dywedodd Gareth Cemlyn Jones, "Fel Cadeirydd Ynni Ogwen rwyf yn falch iawn o'r gwaith mae'r Elusen wedi ei gyflawni ers ei sefydlu yn 2020. Gweledigaeth Partneriaeth Ogwen wrth greu Ynni Ogwen oedd sicrhau cynnyrch ein hunain a defnyddio'r incwm o werthu'r trydan er lles y gymuned yn y Dyffryn. Mae'n amlwg fod hyn wedi ei wireddu a hoffwn ymestyn ein diolch i'r tîm am y gwaith rhagorol yma."

Dyfarnwyd y grantiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan yr elusen i Barc Moch (i ariannu gweithgareddau'r haf), Clwb Criced a Bowlio Bethesda (ar gyfer goleuadau ynni'r haul allanol a thanc dŵr newydd), Dreigiau'r Dyffryn (goleuadau LED newydd), Partneriaeth Ogwen (dyddiau gweithgareddau i deuluoedd) a Chanolfan Tregarth (ffensys a llwybrau allanol newydd).

Mae manylion llawn am sut i wneud cais am grantiau ar gael ar wefan yr elusen https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/. Neu anfonwch e-bost at elusenogwen@gmail.com am ragor o wybodaeth.



**Llewyrch yr Arth (Goleuni'r Gogledd; *Aurora borealis*) efo goleuadau Dyffryn Ogwen. Llun gan Osian Curig Sanderson, Mynydd Llandygai.**







## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE
(07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel, Llanllechid**
*Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Mehefin 23 : Oedfa Ysgol Sul.
Mehefin 30 : Canon Idris Thomas.
Gorffennaf 07 : Parchg. R. O. Jones.
Gorffennaf 14 : Parchg. Nerys Griffiths.

CROESO CYNNES I BAWB

**Cydymdeimlo**
Bu farw un o'n haelodau ni, Mrs Glenys Jones, Adwy'r Nant yn ystod y mis. Bu Glenys yn ffyddlon i'r achos hyd eithaf ei gallu. Mi fyddai hi'n dod i'r Clwb Gwau a'r Te Bach hefyd ac roedd hi'n rhoi yn hael tuag at bob gweithgaredd. Rydan ni'n cydymdeimlo hefo Glyn a Derek, ei meibion hi a'r teulu I gyd yn eu profedigaeth.

**Te Bach**
Mi gawsom ni ymwelydd arbennig iawn â'r Te Bach ym mis Mai, sef Ioan sy'n ŵyr i Linda ac Arwel Hughes, Garneddwen. Mae Ioan wedi codi llawer o arian at elusen sy'n helpu pobl ifanc gydag iechyd meddwl sef 'Shout' ac mae wedi cerdded cannoedd o filltiroedd i wneud hynny. Yn ddiweddar, bu Ioan yn cerdded ym mynyddoedd yr Himalaya. Diolch iddo fo am ddod atom ni i siarad am ei deithiau. Rhoddwyd elw'r Te Bach hwnnw o £150 tuag at elusen Ioan.

**Cofion**
Cafodd Carys Roberts salwch yn ddiweddar ond mae hi'n gwella erbyn hyn er nad ydy hi wedi ailddechrau gweithio. Rydan ni'n anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau iddi hi.

## Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Eleni cynhaliwyd Rali Ffermwyr Ifanc Eryri yn Fferm Ddol Castell, Rowen ar Fai'r 20fed. Cafwyd gwaith paratoi caled iawn yng Nghlwb Dyffryn Ogwen yn yr wythnosau a oedd yn arwain fyny tuag at y Rali. Bu sawl aelod yn llwyddiannus yn y cystadlaethau barnu stoc a chynhaliwyd rhai wythnosau ynghynt, gan roi'r clwb mewn safle da cyn y diwrnod mawr.





Roedd cystadlu brwd rhwng yr un ar ddeg clwb, a phob aelod yn frwdfrydig ac wedi cael mwynhad wrth gynrychioli eu clwb mewn bron pob un o'r gystadleuaeth a chafodd ei chynnal. O ganlyniad i ddyfalbarhad a gwaith diflino'r aelodau, arweinyddion a rhieni, gwelwyd llwyddiant mawr gyda rhai yn ennill cystadlaethau megis Beca Jackson yn lapio gwlân o dan 30. Yn ogystal, daeth Clwb Dyffryn Ogwen yn fuddugol yn y gystadleuaeth peiriannau. Cafwyd y clwb 3ydd yn eu harddangosfa ac ail wrth gasglu erwau hysbysebion, sydd bendant yn dangos gwaith tîm. Cafwyd tariannau haeddiannol iawn eu rhannu allan gyda'r clwb, derbyniodd Osian Griffiths y Gwpan T. O. Williams Ysgol Yrru Dwyfor am fod yr unigolyn gorau gyda pheiriannau, hefyd cafwyd y clwb y Tlws Goffa Mr John G. Bumby am fod y buddugwyr yng nghystadlaethau peiriannau. Heb os, roedd y gwaith caled yma wedi talu'n dda achos cafwyd y clwb drydedd mewn Rali gystadleuol a safonol iawn. Oblegid y llwyddiant, cafwyd dathlu yn y Ddawns Nos.

Da iawn i'r aelodau i gyd am eich ymroddiad a'ch dyfalbarhad y flwyddyn yma. Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon am ddod yn ail ac i Glwb Ffermwyr Ifanc Rowen ddod yn gyntaf am gynnal Rali lwyddiannus ac un i'w gofio eto. Pob lwc i bawb sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd.

Ymlaen â ni i'r flwyddyn nesaf, gan obeithio croesawu aelodau yn ôl a chroesawu rhai newydd.

**L. STURRS A'I FEIBION**
SEFYDLWYD YN 1965
**ADEILADWYR**
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

**Gareth Williams**
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

## Rhiwlas

**Annes Glynn**, Bwthyn Cefn Braich, Rhiwlas
LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

**Cydymdeimlad**
Mae nifer o'r pentrefwyr wedi profi colledion yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Lowri James, Castell, a gollodd ei thad John E. James, gynt o'r Bala, ddechrau Mai. Roedd yn 91 oed a bu'n Gadeirydd Cyngor Sir Gwynedd ac yn athro Mathemateg yn Ysgol y Berwyn Y Bala. Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Elwyn Jones, Fferm Tan y Weirglodd, a gollodd ei frawd-yng-nghyfraith yn ddisymwth ar Fai 3. Roedd Meurig Williams yn briod â chwaer Elwyn, sef Margaret, ac yn byw yn Abererch. Cofiwn hefyd am deulu Irene Jones, gynt o Lôn Plas, fu farw ar Fai 7 ac anfonwn ein cydymdeimlad cywir at Ieuan, Donna a'r teulu i gyd yn eu colled.

**Llongyfarchiadau**
Dewiswyd Myla Celyn, Caeau Gleision, yn Dywysoges Carnifal Bethesda 2024 eleni. Yn dilyn ei choroni mewn noson arbennig yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Fai 10 bu Myla, sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Rhiwlas, yn cymryd rhan yn yr orymdaith ar Fai 18. Diwrnod i'w gofio! Llongyfarchiadau mawr iawn iti, Myla.

**Cyfeillion Rhiwlas**
Cacen a Choffi – bydd y wledd nesaf yn digwydd yn y Neuadd brynhawn Sadwrn, **Mehefin 22** rhwng 1 a 3 y prynhawn. Peidiwch ag oedi'n rhy hir – mae'r cacennau blasus yn mynd yn gyflym! A rhag-hysbys bach – bydd y Noson Bingo nesaf yn cael ei chynnal nos Sadwrn, **Gorffennaf 27** rhwng 6.15 ac 8.30. Dewch yn llu!

**Diwrnod hanesyddol!**
Roedd Mai 1 yn ddiwrnod hanesyddol yn natblygiad Neuadd Bentref Rhiwlas gan mai dyna pryd y dechreuodd y neuadd gynhyrchu trydan!

Llwyddwyd i ennill grant o £41,000 o Gronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth Cymru, trwy Gronfa Sector Gwirfoddoli Mantell Gwynedd 2023/24, i uwchraddio'r Neuadd Bentref drwy osod paneli solar ar y to, ynghyd â batris all storio'r ynni sy'n cael ei gynhyrchu.

Cwmni *Menai Heating* fu'n llwyddiannus gyda'u cynnig i osod y system. Gosodwyd 39 o baneli solar (all gynhyrchu 17kWp o drydan) ar do'r neuadd a chwe batri all storio cyfanswm o 35 kWh o bŵer y tu mewn i'r adeilad

Oherwydd i system wresogi'r Neuadd gael ei diweddaru y llynedd – ei newid o ddefnyddio olew, i ddefnyddio trydan – bydd cost gwresogi'r adeilad yn llawer llai bellach, diolch i'r paneli solar newydd.

Bydd y Neuadd hefyd yn derbyn tâl am y trydan sy'n cael ei gynhyrchu, ond nid yn cael ei ddefnyddio yn y neuadd, ac sy'n cael ei allforio i'r grid.


**Gweithwyr *Menai Heating* wrthi'n ddyfal yn gosod y paneli solar ar do'r Neuadd**

Mae Pwyllgor Rheoli'r Neuadd, dan gadeiryddiaeth Elfyn Jones-Roberts, yn awyddus iawn i ddiolch i bawb fu ynglŷn â'r prosiect hwn yn enwedig Angharad Owen am arwain ar y cais grant llwyddiannus, i'r trysorydd Kate Wheelock am arolygu'r cais, ac i *Menai Heating* am gwblhau'r prosiect i'r gost a'r amser y cytunwyd arnynt.

Hefyd, wrth gwrs, i'r cyrff fu'n gyfrifol am ariannu'r prosiect: grant gan Lywodraeth Cymru trwy law Mantell Gwynedd.

**Clwb Darllen**
Cofiwch am y Clwb Darllen Unrhyw Lyfr sy'n cyfarfod ar yr ail nos Iau ym mhob mis, rhwng 7 ac 8.30 y.h. yn y Neuadd. Does dim pwysau i ddarllen unrhyw lyfr penodol, ond mae criw hwyliog yn mwynhau dod at ei gilydd i sôn am y llyfrau y buon nhw'n eu darllen yn ystod y mis cynt ac i gyfnewid awgrymiadau am ddarllen difyr. Ac wrth gwrs mae paned a rhywbeth bach melys i'w gael i gadw'r drafodaeth i fynd! Croeso i bawb.

**Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul**
Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

**Mehefin 23** – Dr. Ian Morris;
**Mehefin 30** – Dafydd Coetmor Williams;
**Gorffennaf 7** – Dr. Ian Morris;
**Gorffennaf 14** – Dr. Huw Tegid Roberts.

Croeso cynnes i bawb.

## YSGOL RHIWLAS

**Trip i Gastell Caernarfon**
Cafodd plant Cyfnod Allweddol 1 drip gwerth chweil i Gastell Caernarfon yn ystod mis Mai. Roedd pawb yn llawn cyffro yn crwydro'r Castell, a dringo i ben y tyrrau uchel.

**Taking Flight Theatre – sesiwn BSL**
Diolch yn fawr iawn i Steph a chriw 'Taking Flight Theatre' am ddod i'r ysgol i gynnal sesiwn arbennig am iaith arwyddo (BSL). Roedd y disgyblion wrth eu boddau yn dysgu am yr iaith arbennig yma.

Mae Taking Flight Theatre yn arbenigo mewn cynyrchiadau theatr beiddgar, anarferol gyda pherfformwyr byddar, anabl, heb anabledd a niwroamrywiol.

**Camau Cerdd**
Yn ystod mis Mai mae disgyblion Cyfnod Allweddol 1 a Blwyddyn 3 wedi bod yn mwynhau sesiynau 'Camau Cerdd' dan arweiniad Charlotte (un o diwtoriaid 'Camau Cerdd').

Mae Camau Cerdd yn brosiect a gynhelir mewn partneriaeth rhwng Canolfan Gerdd William Mathias a'r cerddor Marie-Claire Howorth. Mae'r dosbarthiadau wedi eu llunio'n ofalus er mwyn rhoi'r cychwyn gorau posib a sylfaen cerddorol cadarn i blant. Credir bod gan addysg gerddorol y gallu i ddatblygu sgiliau rhifedd, llythrennedd a chyfathrebu, deallusrwydd emosiynol, cydsymud, y cof a sgiliau cymdeithasol eraill ynghyd â bod yn llesol i'r ymennydd a'r corff. Mae disgyblion Ysgol Rhiwlas yn bendant yn mwynhau'r sesiynau!

**Race for Life**
Llongyfarchiadau mawr i Miss Williams a Mrs Halstead am gwblhau y 'Race for Life' yng Nghaernarfon yn ddiweddar – ysbrydoliaeth i'r disgyblion!

**Ffotograffau ysgol**
Braf oedd croesawu criw Tempest i'r ysgol unwaith eto eleni i dynnu ffotograffau'r disgyblion.


**Nel Iolen**


**Myla**

**Carnifal Bethesda**
Llongyfarchiadau mawr i Myla o Flwyddyn 2 am gael ei choroni yn Dywysoges Carnifal Bethesda eleni. Roedd Myla ddigon o sioe yn ei ffrog hardd – da iawn chdi Myla!

Roedd Nel Iolen o Flwyddyn 3 hefyd yn rhan o'r Carnifal – roedd hi yn un o 'Majorettes Bethesda', a bu iddi gynrychioli Ysgol Rhiwlas yn ystod seremoni coroni teulu brenhinol y Carnifal drwy adrodd darn o farddoniaeth. Gwych genod!

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Penblwydd arbennig**
Llongyfarchiadau mawr i Fred Buckley, Maes Ogwen, sydd wedi dathlu ei benblwydd yn 90ain oed ar Orffennaf 14eg. Penblwydd hapus Fred, gobeithio eich bod wedi mwynha y dathlu.



**Priodas Aur**
Ar Fehefin 6ed bydd Angharad a Gerallt Williams yn dathlu eu Priodas Aur. Wedi treulio pedair blynedd cyntaf eu bywyd priodasol yn Manitoba, Canada ymgartrefodd y ddau yn Ffordd Tanrhiw ac wedi hen sefydlu eu hunain fel trigolion Tregarth bellach. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r ddau ohonoch.

**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024**
Pob clod i bawb o'r ardal fu yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Maldwyn eleni. Eisteddfod arbennig iawn, mewn ardal arbennig ac heblaw am y mwd ar gychwyn yr wythnos bu'n lwyddiant ysgubol.

Llongyfarchiadau arbennig i Esther Llugwy Parry o Lôn y Wern am ddod i'r brig yng nghystadleuaeth y soddgrwth. Ardderchog Esther.

**Profedigaeth**
Ar Fai 12 , bu farw Brenda Owen (Morgan gynt) yn Ysbyty Gwynedd o 5 Fron Ogwen, Tregarth yn 79 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Richard, ei mab Gareth a'r holl deulu yn eu galar. Bu ei hangladd yn Amlosgfa Bangor ar Fai 31ain.

**Artist o Dregarth**
Bore Sul, Mai 19eg, clywsom lais un o genod Tregarth, sydd yn artist rhyngwladol erbyn hyn, sef y gof a'r gemydd Ann Catrin, gynt o Bryn Cul, ond yn awr yn byw yng Nghaernarfon. Roedd yn cael ei holi gan Bethan Rhys Roberts ar y rhaglen Bore Sul ar Radio Cymru. Mae gwaith Ann yn cael ei gydnabod ar draws y byd ac rydym mor ffodus o weld ei gwaith yn y gemwaith cain mae yn ei greu ond hefyd mewn prosiectau mawr, megis y dolennau eiconic ar ddrysau adeilad y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Diolch iti Ann am dy holl waith. Rydym yn falch iawn o dy lwyddiant yma yn Nhregarth a Dyffryn Ogwen.

**Gwaeledd**
Rydym yn anfon ein cofion at bawb o'r ardal sy'n sal mewn Ysbyty, Cartref Gofal neu adre ar eu haelwyd ac yn meddwl amdanoch am iachad llwyr a buan.

Mae Maud Griffiths, Gilfach, Dob, yn parhau i fod yn Ysbyty Eryri a bu Olga Davies, Yr Hen Berllan, Dob, hefyd ar fwy nag un achlysur yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cofion at y ddwy ohonynt am wellhad buan a llwyr.

**Drws Agored**
Ydi, mae'r drws ar agor bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 o'r gloch i bawb hoffai droi mewn am sgwrs, cwmni a phaned. Dewch yn llu, mae croeso yn eich disgwyl.

I bawb fu yn Shiloh i weld yr arddangosfa 'Y Beibl Gwau, wel diolch i chi, gan obeithio y gwnaethoch fwynhau y wledd a baratowyd ar eich cyfer. Bu'n brofiad ardderchog gweld yr holl waith a buom yn hynod lwcus cael yr arddangosfa yma ar ein stepan drws. Diolch i bawb fu'n y wneud a'r prosiect ac yn arbennig i Rhian, Ffion a Norah fu ar ein rhan yn Wilmslow ac a fu'n gyfrifol am osod allan yr holl waith. Diolch hefyd i'r genod fu'n gyfrifol am y baned a'r deisan ac i bawb, o bell ac agos ddaeth draw i Shiloh.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Nos Lun, Mai 13eg, rhoddwyd croeso i'r holl aelodau i Festri Capel Shiloh gan ein llywydd Carol Jones. Rhoddwyd croeso arbennig i'r dysgwyr sydd yn aelodau yn y gangen a rhai ohonynt yn dod cyn belled a Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi. Mor braf bod gennym gangen mor frwdfrydig gyda'r ifanc a rhai sydd yn hyn yn cydweithio a mwynhau gyda'r gilydd. Mae gobaith am ddyfodol ardderchog i'r gangen.

**Gŵr Gwadd**
Y gŵr gwadd oedd Gwyn Vaughan Jones, neu Arthur yn y gyfres deledu 'Rownd a Rownd'. Brodor o Flaenau Ffestiniog ydi Gwyn a'i dad Meirion Jones yn arweinydd Côr y Brythoniaid am flynyddoedd. Gwyddom hefyd am Gwyn yn gerddor ddawnus iawn ac yn rhan o'r pedwarawd poblogaidd 'Hapnod', rhai blynyddoedd yn ol. Bu Gwyn yn actio gyda amryw byd o gwmniau megis Theatr Morgannwg, Theatr Bara Caws a Theatr Clwyd a hynny am nifer fawr o flynyddoedd. Roedd yn bleser gwrando arno yn siarad am ei atgofion o fyd y ddrama a chafodd rai o'r aelodau gyfle i edrych dros rai o sgriptiau y bu Arthur yn ymwneud a nhw, a chael eu cyflwyno i weddill yr aelodau. Noson gartrefol, braf a phawb wedi mwynhau.

Bydd y cyfarfod nesa ar Fehefin 3 pan ddaw Y Parchedig Nerys Griffiths, Caernarfon i son am fod yn Weinidog yn yr oes fodern.

**Taith**
Ar Orffennaf 6ed bydd gwibdaith y gangen i'r Ysgwrn, Trawsfynydd gyda chyfle i ddysgu am y Ganolfan gan y staff a phryd o fwyd i'w ddilyn yn Maentwrog. Diolch i bawb o swyddogion y gangen am eu gwaith yn paratoi y raglen am y flwyddyn, ac i Shiloh am fedru defnyddio'r Festri bob mis ond mae'r diolch fwyaf i'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u cwmniaeth.

## Capel Shiloh Newydd, Tregarth



Braf oedd croesawu Lleuwen Steffan i Shiloh yn ystod ei thaith Emynau Coll.

Cofiwch fod na wasanaeth bob Nos Sul yn Shiloh am 5 o'r gloch, os na nodir yn wahanol.

| | |
|---|---|
| Mehefin 23 | R.O. Jones, Gaerwen |
| Mehefin 30 | Huw Tegid Roberts, Llangefni |
| Gorffennaf 7 | Dr Ian Morris |
| Gorffennaf 14 | Trefniant Lleol |
| Gorffennaf 21 | Dewi Morris, Porthmadog (am 4 o'r gloch) |
| Gorffennaf 28 | Philip Barnett, Swydd Efrog |

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com




**Panel Hanes Sgwâr Pentir**
Mae panel yn egluro hanes Sgwâr Pentir wedi ei osod ar y fynedfa i'r sgwâr oddi ar y brifordd A4244. Mae'r panel yn egluro pwysigrwydd y safle mewn perthynas â'r diwydiant porthmona ynghyd â hanes y ddwy dafarn sef, Tŷ Isaf (Tafarn y Faenol) a'r Tŷ Uchaf (Nag's Head/ Pentir Arms), Plas Pentir a'r ffordd Rufeinig gyfagos.

Diolch i Gyngor Cymuned Pentir am ariannu'r fenter, i John Lewis am arwain ar ran y cyngor, i Siân Shakespear am lunio'r panel ac i Cynrig Hughes am y weledigaeth a'r wybodaeth hanesyddol.

**Project Storio Ynni**
Mae cwmni 'Lightsource bp' yn cynnal ymgynghoriad parthed eu cynllun i adeiladu safle storio ynni ar gae 6.5 erw ger Rhos Fawr ym Mhentir, yn agos i safle is-orsaf Grid Cenedlaethol Pentir. Bydd 96 o gynwysyddion batri, tebyg i faint blychau dal nwyddau a welir ar longau ac yn gallu storio trydan i gyflenwi anghenion ynni 23,000 o gartrefi.

Mae'r cwmni yn dadlau bod y project yn rhan o geisio trawsnewid i rwydwaith trydan carbon isel.

Byddai'r batris yn stori ynni adnewyddol lleol ac felly yn lleihau'r ddibyniaeth ar danwydd ffosil. Prin iawn oedd y diddordeb yn lleol pan drefnodd y cwmni bnawn agored ar gyfer trigolion lleol i drafod y datblygiad gydag ond 16 unigolyn wedi galw heibio.

Ydy hyn yn dangos cefnogaeth neu ddifaterwch?

**Ras Hwyl Pentir, Gorffennaf 10fed, 2024**
Mae'r digwyddiad yma wedi ennill ei le ar galendr rhedwyr erbyn hyn. Mae'n boblogaidd oherwydd mae'n defnyddio llwybrau gwastad heb fawr o elltydd ac yn addas i redwyr adloniadol a rhedwyr sy'n aelodau o glybiau rhedeg. Mae'r ras hefyd yn rhan o weithgarwch i godi arian i elusennau lleol. Am wybodaeth pellach cadwch lygad ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Llwyddiant Côr Cymru**
Llongyfarchiadau i Cefin a Rhian am brofi llwyddiant eto yng nghystadleuaeth Côr Cymru 2024.

**Llwyddiant Reuben**
Yn ystod mis Mawrth eleni bu Reuben yn Japan ar gyfer cystadleuaeth 'Minoh City Karate Championship' ble roedd dros 500 yn cystadlu. Roedd Reuben yn cystadlu yn y grŵp dros 30 oed a llwyddodd i ennill 4 gornest gan ddod y drydydd a chael y fedal efydd. Tra yn Japan cafodd gyfle i ymweld ag Osaka a Koyoto a hyfforddi gyda Mirisa Ohuchi sydd yn 4ydd orau yn y byd Karate. Hefyd cafodd Reuben gyfarfod a hyfforddi gyda'i athro sef, Masataka Ohshita sydd yn 10fed Dan, Black Belt ac wedi bod yn hyfforddi'r gamp am dros 50 mlynedd.

Mae Reuben ac Alison wedi sefydlu dosbarthiadau Karate yng Nghaernarfon, Bangor, Llanfairpwll a Phorthaethwy a gellir cysylltu gyda hwy drwy: www.dragonkarate.cymru neu dragonkaratecymru@gmail.com



ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
**Andrew G. Lomozik B.A.**
**Ffôn:** 01248 602117
**Symudol:** 07835487909

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

## Cyngor Cymuned Llandygai

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol a chyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 16fed o Ebill yng Nghanolfan Tregarth.

**Cadeirydd Newydd 2024-25**

Yn ystod y cyfarfod blynyddol, derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd 2022-24, Cyng. Mair O Pierce ar holl lwyddiannau'r Cyngor yn ystod y dwy flynedd diwethaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, etholwyd y Cyng. Lowri Jones yn gadeirydd am y flwyddyn 2024/25. Cymerwyd yr awennau gan y Cadeirydd newydd, a diolchwyd i'r Cyng. Mair O. Pierce am ei holl waith fel Cadeirydd yn ystod y dwy flynedd diwethaf.



Y cyn-gadeirydd, y Cyng. Mair O Pierce gyda'r Cadeirydd newydd, y Cyng. Lowri Jones

**Deiseb Gwasanaeth T10**

Adroddwyd fod y Cyng. Beca Roberts a Catrin Wager, ymgeisydd Plaid Cymru dros Fangor Aberconwy, wedi creu y deiseb ac mae bellach yn fyw. Ewch draw i wefan: https://bangoraberconwy.plaid.cymru/ i arwyddo'r deiseb i addasu'r gwasanaeth bws T10 i wella cysylltedd ein cymunedau

Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i gadw cymunedau'n gysylltiedig, ac wedi bod yn achubiaeth i lawer, yn enwedig yn wyneb costau byw ac argyfyngau amgylcheddol.

Rydym yn croesawu'r T10 a'r cyswllt gwell y mae'n ei ddarparu rhwng Bangor a Pharc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wneud mân addasiadau i'r gwasanaeth.

**Allt 'Rocar**

Adroddwyd fod y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth gan y Cyng. Dafydd Meurig ynglyn a gwaith mae Cyngor Gwynedd wedi ei wneud dan arweiniad Meirion Macintyre Huws. Nodwyd eu bod wedi adnabod cyfle i osod arwyddion ar gyfer 'Allt 'Rocar', ar waelod ac ar dop yr allt. Croesawodd y Cyngor yr cynlluniau newydd a hoffai ddiolch i Gyngor Gwynedd am y gwaith.

**Gwaith Torri Llwybrau**

Mae'r amser o'r flwyddyn wedi cyrraedd ble fydd holl lwybrau'r plwyf yn cael ei torri, fydd y contractwr yn dechrau ar y gwaith yn ystod yr wythnos nesaf.

**Llongyfarch Tîm Genethod Rygbi Tag Ysgol Tregarth**

Cyn y Pasg, fu disgyblion genethod blwyddyn 5 a 6 Ysgol Tregarth yn chwarae rygbi mewn twrnament yr Urdd yn Nghaernarfon, a daeth yr ysgol yn gyntaf! Roedd y tîm wedi cyrraedd y rowndiau terfynnol yn Ngwyl Chwaraeon yr Urdd yn Abersystwyth ar y 12fed o Fai. Gwnaethant yn arbennig o dda a hoffai'r Cyngor eu longyfarch ar gyrraedd mor bell.

**Seddi Gwag**

Adroddwyd fod dwy sedd wag dal ar gael ar y Cyngor Cymuned - un sedd Ward St Anns (Mynydd Llandegai) ac un sedd Ward Llandygai. Mae' Cyngor yn awyddus iawn i gael llenwi'r seddi hyn, os hoffech chi wneud gwahaniaeth i'ch cymuned leol yna cysylltwch â'r Clerc am fwy o wybodaeth - e-bost cyngorllandygai@ogwen.org neu 01248 602131.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 20fed o Fehefin am 18.30 yn rhithiol dros Zoom.

**Hogia'r Bonc yn Ennill yn Iwerddon**

Cafodd Hogia'r Bonc daith lwyddianus i'r Wyl Ban Geltaidd yn Iwerddon yn ddiweddar. Wedi teithio i Carlow cafodd yr hogia wobr am eu cyfraniad i'r wyl. Hon oedd y gwpan gyntaf i'r grŵp ennill ers iddyn nhw ffurfio dros 20 mlynedd yn ôl. Roedd na beth syndod felly a phawb yn hapus iawn o'r llwyddiant. Cyflwynwyd 200 Euro fel gwobr ac yn garedig iawn, fe roddodd yr hogia' yr arian i Hosbis Dewis Sant. Dyma lun o'r hogia yn cyflwyno'r arian i Trystan Pritchard, Prif Weithredwr Hosbis Dewi Sant.



## Mynydd Llandygái

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Myfi Celyn, Cwm Hyfryd, Gefnan, gafodd ei dewis i arddangos dau o'i gweithiau celf tecstiliau yn Oriel Môn, yn arddangosfa Syr Kyffin Williams. Ar hyn o bryd mae Myfi, a'i chwaer Nel, yn dilyn Cwrs Celf Sylfaen yng Ngholeg Menai. Ym Mis Medi eu gobaith yw y bydd Nel yn dilyn cwrs Ffotograffiaeth ym Mhrifysgol De Cymru, Caerdydd a Myfi yn dilyn Cwrs Ffasiwn yn y Brifysgol yn Belfast.

Dilynwch Llais Ogwan ar X **@Llais_Ogwan**

## Hanes Sioe Môn

Sioe Môn neu Primin Môn, pa ru'n ydych chi'n ei ddweud? Mae'n siŵr fod gennych chi atgofion da o'r Primin, o arddangosfeydd anhygoel o dda-byw, sioe gŵn ac anifeiliaid anwes bach, cystadlaethau cneifio, i fwyd lleol blasus, celfyddydau a chrefftau, i arddangosfeydd marchogaeth gwefreiddiol, mae'n sioe llawn bwrlwm. Ond o ble mae'r enw 'Primin Môn' wedi dod? Rwyf am fynd â chi drwy hanes y gymdeithas tua 150 o flynyddoedd yn ôl pan roedd yr ynys yn fwy dibynnol ar amaethyddiaeth na unrhyw sector arall.

Rwyf am gymryd chi nol i'r flwyddyn llawer cyn ein geni, tua 150 o flynyddoedd yn ôl pan roedd yr Ynys yn ddibynnol ar amaethyddiaeth yn fwy na dim arall.

Roedd yna ddiwygiad amaethyddol yn y ddeunawfed ganrif pan roedd yr awdurdodau yn gweld pwysigrwydd mewn cynhyrchu bwyd. Sefydlwyd cymdeithasau amaethyddol ar hyd a lled y wlad i roi premiwm i bobl oedd yn rhagori mewn gwahanol sgiliau. Cymdeithas Y Derwyddol oedd y cyntaf i roi premiwm yma ym Môn i geisio gwella ansawdd y tir. Yn 1975 rhoddwyd pedwar premiwm o £5 yr un am waith draenio gorau, y gwrych gorau, y cnwd tatws gorau a'r cae rwdins gorau. Erbyn 1808 sefydlwyd Cymdeithas Amaethyddol Môn i gefnogi a meithrin digwyddiadau a datblygiadau amaethyddol yr ynys, felly defnyddwyd tri dull i geisio sylweddoli hyn sef argraffu llyfrynnau bach llawn gwybodaeth, hybu cynllunio ac addasu offer fferm a hefyd rannu primiwmau yn flynyddol. Ac felly o'r gair 'premium' daeth yr enw 'Primin Môn'.

Roedd 4 cystadleuaeth nol yn 1975 mae Primin Môn erbyn heddiw yn cynnig tua 1350 o gystadlaethau, sydd yn amrywio o osod blodau, i gynnyrch fferm, celf a chrefft, coginio, arddangos anifeiliaid anwes, da-byw a cheffylau. Mae'n wir i ddweud fod Primin Môn wedi mynd o nerth i nerth. Heddiw, mae'r Primin yn croesawu dros 40,000 o bobl dros y digwyddiad dau ddiwrnod, gyda nifer yr arddangoswyr yn cynyddu'n flynyddol.

Mae PRIMIN Môn yn nol am flwyddyn arall ar y 13eg a 14eg o Awst, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw i'ch croesawu ar gyfer digwyddiad dau ddiwrnod gwych sy'n cynnig hwyl i'r holl deulu ynghanol harddwch Ynys Môn. Dewch i ymuno â ni wrth i ni ddathlu'r gorau o'r diwydiant amaethyddol ac i gydnabod ymdrechion ein cymunedau lleol.

## Llandygái

**Iona Wyn Jones**, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Penblwydd Hapus**
Dathlodd sawl un o'r gynulleidfa benblwydd ar yr un diwrnod ym mis Ebrill, sef Avril Williams, Hazel Jones a Pauline Edwards. Penblwydd Hapus iawn i'r dair ohonoch!

**Eglwys Agored**
Mae tymor Eglwys Agored wedi cychwyn ers Pasg ac estynnwn groeso i bawb i ymweld â'r adeilad er mwyn darganfod hanes yr eglwys a'r fynwent, gweld cofeb Archesgob John Williams (John Iorc) ac i fyfyrio'n dawel mewn awyrgylch ysbrydol ac hanesyddol. Mae'r eglwys ar agor pob dydd o ganol bore hyd y brynhawn hwyr.

**Rhodd i'r Clychau**
Mae Eglwys St Tegai yn ffodus iawn yn ei chlochyddion! Yn dilyn y neges fod menyg neu *muffles* y clychau wedi dirywio yn sylweddol, neidiodd ffyddloniaid y tŵr i'r adwy gyda chynnig hael i dalu'r gost o osod rhai newydd, swm uchel o £492. Erbyn hyn mae'r broses o brynu'r offer wedi cychwyn felly diolchwn o galon i Gapten y Tŵr, Martin Brown a'r clochyddion am eu haelioni. Mae'r clychau yn hanesyddol bwysig i'r ardal drwy gadw'r traddodiad o ganu mawl a dathlu digwyddiadau lleol.

**Hawleb i'r Clochdŷ**
Yn anffodus gwrthodwyd cais St Tegai am hawleb (caniatâd cynllunio esgobaethol) ar gyfer cynllun i atal lleithdra yn y tŵr. Teimlodd y pwyllgor nad oedd digon o wybodaeth wedi ei gynnig am effaith y cynllun ar y ffenestri gan y cwmni arbenigol felly gohirwyd y cais nes i'r pwyllgor ymweld â'r adeilad a chael mwy o wybodaeth am eglwysi eraill hanesyddol sydd wedi elwa o'r un cynllun. Rhwystr dros dro gobeithio!

**Giât yr adwy**
Cawsom siom mis diwethaf pan sylwasom fod giât yr adwy wedi ei difrodi gan gerbyd anhysbys. Fe gofiwch mai newydd ei hatgyweirio oedd y giât felly roedd rhaid troi eto at ein peintiwr, Barry Williams o Bonc Lôn, Talybont i drwsio ac ailbeintio. Diolch iddo am gwblhau y gwaith yn ddi-dâl! Ers hynny mae Barry ei hun wedi cael damwain a dymunwn adferiad buan iddo.

**Gwaeledd**
Gyrrwn ein dymuniadau am wellhâd buan i Elizabeth Lloyd, gwraig ein ficer. Erbyn hyn mae Elizabeth gartref o'r ysbyty ac yn derbyn pob gofal gan Gareth a Jessi. Brysiwch wella, Elizabeth. Braf yw gweld Raymond Edwards a Jan Roberts yn gwella ac rydym yn mawr obeithio cawn glywed newyddion da am Arfon Thomas, archwiliwr ein cyfrifon, gynt o Dalybont sydd yn derbyn triniaeth hir dymor. Mae sawl un o'r gynulleidfa yn gwynebu cyflyrau hir dymor a dymunwn yn dda iddynt.

**Darganfod Bedd Arfonwyson**
Yn ddiweddar derbyniodd clochyddion St Tegai lun a chwestiwn o eglwys yn Greenwich Llundain ar eu tudalen *Facebook*. Wrth glirio y fynwent yn St Alfege, Greenwich darganfuwyd bedd Gymraeg gyda chysylltiad â phlwyf hanesyddol Llandegai ac i ganlyn roedd y gynulleidfa yn awyddus i wybod mwy am ei chefndir. Ar ôl i ni astudio'r bedd argraff, sylweddolwyd gyda chyffro mai John William Thomas neu Arfonwyson, yn wreiddiol o Allt Isaf (Rallt), Pentir oedd yr "Ieithydd, Rhifydd a Serydd". Roedd ymchwilwyr o dan yr argraff fod y garreg goffa wedi hen ddiflannu.

Wrth gwrs, gwyddom fod sawl un o ddarllenwyr y Llais yn arbenigo yng ngwaith a bywyd Arfonwyson, (gweler gwefan Hanes Dyffryn Ogwen https://hanesdyffrynogwen.wordpress.com/2021/01/22/arfonwyson-a-phentan-bryn-twrw/ ) . Os oes ganddoch fwy o wybodaeth buasai Vaughan Ginn o Greenwich yn falch o glywed. Matt.ginn@me.com

Pleser yw gwybod nad yw ein mawrion yn angof, hyd yn oed os ydynt ymhell o'u cynefin.




**Bedd John William Thomas "Arfonwyson" ym mynwent St Alfege, Greenwich.**

**Rhodd St Tegai 2024**
Bydd Ŵylmabsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed a felly mae mis Mehefin yn gyfle da i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai gynnig rhodd ariannol i ddathlu bywyd a gwaith y sant. Derbynir yn ddiolchgar unrhyw roddion drwy siec yn daladwy i Eglwys Llandegai, neu arian parod mewn amlenni trwy'r blwch postio i'r swyddogion; Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719); Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369) neu Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU. Os gwelwch yn dda a wnewch chi ysgrifennu enw llawn, cyfeiriad ac ebost ar eich rhodd: mae'n bosib hawlio Rhodd Cymorth am gyfraniadau cymwys.

Wrth gwrs mae'n bosib talu drwy drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: **30-90-43 00098435**)

Diolch i bawb sydd wedi dangos diddordeb neu wedi cyfrannu eisoes i'n hachos.

**Gwasanaethau**
**Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521/ 07847125225 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.

**MODURDY FFRYDLAS**
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
**Stryd Fawr, Bethesda**
PROFION M.O.T.
GWASANAETH ATGYWEIRIO
TEIARS A BATRIS
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

**SIOP OGWEN**
yn cynnig gwasanaeth
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd gan
Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
**07394 905881**
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i
wneud trefniadau casglu a thalu
**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

# YSGOLION ABERCASEG A PHENYBRYN

**Wythnos Iechyd a Lles yn y ddwy ysgol.**
Nôd wythnos Iechyd a Lles yma'n Ysgol Abercaseg ac Ysgol Penybryn oedd cefnogi Iechyd meddwl a Lles emosiynol y plant. Trefnir yr wythnos yn rheolaidd, ond gan mai thema'r wythnos eleni oedd 'Symudiad' yn Abercaseg, cawsom wythnos yn llawn dop o weithgareddau corfforol er mwyn hyrwyddo'r neges fod ymarfer corff yn gwella ein iechyd meddwl.

**Ymweld â Dreigiau'r Dyffryn**
Cafodd y plant fodd i fyw yn gwneud pob math o gampau yn Nreigiau'r Dyffryn! Roedd hi'n braf gweld y plant yn mentro ar yr offer, a hynny am y tro cyntaf i amryw ohonynt. Roedd y plant wrth eu boddau hefyd yn cael teithio yn y bws trydan, roeddent wedi rhyfeddu pa mor dawel oedd y bws!
Da iawn chi blantos, a diolch o galon i Sophie Pipe o Dreigiau'r Dyffryn am drefnu gweithgareddau hynod o gyffrous a diddorol i'r plant.

**Creu smwddis iachus**
Ni does modd cadw'r corff a'r meddwl yn iach heb fwyta'n iach. Felly, daeth pob dosbarth â ffrwythau o wahanol liwiau i'r Ysgol ac fe grëwyd smwddis iachus a hynod o flasus! Diolch i'r rhieni am eu cyfraniad hael.

**Sesiwn pêl-droed gyda Nathan Craig**
Er mwyn bodloni'r pêl-droedwyr yn ein plith, cawsom sesiwn gyda'r bechgyn sydd yn gweithio i Nathan Craig. Llwyddodd y rhai lwcus gael medal am ddangos yr ymdrech fwyaf yn ystod y sesiynau. Llongyfarchiadau blantos a diolch i'r bechgyn am gynnal sesiynau hwyliog, roedd pawb wedi cyffroi'n lân.

**Taith Gerdded**
I gloi'r wythnos, cawsom daith cerdded i'r Ysgol gyfan. Dyma ffordd arbennig i gloi wythnos hynod o lwyddiannus, gyda'r plant a'r staff yn mwynhau'r heulwen ac yn mwynhau golygfeydd godidog Bethesda yn llygaid yr haul.

**Diwrnod Rhifedd**
Er mwyn hyrwyddo rhif trwy'r Ysgol cafwyd gweithgareddau hwyliog a diddorol yn dathlu ein bod yn mwynhau delio gyda rhifau yn Abercaseg. Gwisgodd y plant y eu dillad eu hunain gan sicrhau fod rhifau ar eu dillad, a chafwyd rhifau wedi eu peintio ar eu hwynebau ynghyd â nifer o gemau yn ymwneud â rhif trwy'r prynhawn.

**Gwawr y Frenhines**
Da iawn chi blant am berfformio yn seremoni coroni Carnifal Bethesda yn Ysgol Dyffryn Ogwen! Braf oedd gweld y plant yn mwynhau ac yn diddanu'r gynulleidfa gyda pherfformiad egnïol i gefnogi ein brenhines ni o Ysgol Penybryn a gweddill y "teulu brenhinol!"
Diolch blant! Braf oedd gweld Gwawr o Ddosbarth Tryfan, Ysgol Penybryn, yn gwisgo ei choron ar ddiwrnod y carnifal!

**Helfa Drysor**
Profodd disgyblion Penybryn lu o weithgareddau amrywiol fel rhan o'r wythnos Iechyd a Lles yn ogystal gan helfa drysor o amgylch y pentref. Aeth disgblion y Cyngor Ysgol ati i baratoi'r helfa drwy grwydro ac ymchwilio i rhai o nodweddion daearddol ac hanesddol ein pentref cyn llunio cwis difyr iawn i bob disgybl arall. Mae adnabod ein cynefin a'n gwreiddiau yn allweddol bwysig i ni yma yn Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg!



**Sesiwn Ioga gyda Leisa Mererid**
Pa ffordd well o ymdawelu ar ôl prysurdeb Dreigiau'r Dyffryn na sesiwn ioga gyda Leisa Mererid. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael symud fel gwahanol anifeiliaid ac yn cael cyfle i dawelu'r meddwl yn ogystal. Diolch Leisa am sesiwn hynod o ddifyr, y plant wedi mwynhau'n arw.

**Creu Byrbrydau Iach**
Profiad arall oedd mynd ati i greu cibabs ffrwythau a pitsas iachus – a braf oedd gweld bob disgybl wrthi'n ddygn iawn yn coginio! Diolch yn fawr i Tesco Bach a Londis Bethesda am eu cyfraniad hael unwaith eto! Fel ysgolion, rydym wastad yn falch iawn o gyd-weithio gyda busnesau lleol yr ardal.



**Sesiwn Rygbi gydag Osian Jones - Swyddog Rygbi'r Dalgylch**
Gan fod nifer o blant a phobl ifanc Bethesda wrth eu boddau yn chwarae rygbi, roedd rhaid gofyn i Osian am ddod draw! Mae'r mwynhad i'w weld yn amlwg ar wynebau'r plant. Braf oedd gweld y plant yn cael mwynhau'r cae yng nghanol y tywydd heulog. Diolch Osian am gynnal sesiynau egnïol a chyffrous.



**A Oes heddwch?**
Diolch i Mr Richard Smith a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am gyflwyno'r cadeiriau cywrain yma ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Penybryn, a gynhelir ar yr 20fed o Fehefin 2024! Diolch hefyd i Welsh Slate am y llechi hyfryd sydd yn sylfaen gref i bob un ohonynt. Tybed pwy fydd yn deilwng o'r campweithiau eleni?




**Taith i fyny'r Wyddfa!**
I goroni'r Wythnos Iechyd a Lles ym Mhen-y-bryn, mentrodd disgyblion Blwyddyn 6, staff ac ambell i riant i fyny'r Wyddfa fawr. Cychwynodd y daith ym Mhen y Pas gan ddilyn Llwybyr Pen-y-Gwryd (PYG) gan ddiweddu'n ddiogel ger y llyn yn Llanberis ar derfyn diwrnod blinedig, heriol ond llawn mwynhad, boddhad a balchder o lwyddo i ddringo'r Wyddfa.

**Gofalu am ein hardal leol**
Fel rhan o'n prosiect gofalu am y blaned, bu plant Penybryn wrthi'n ddiwyd yn casglu ysbwriel a gwastraff plastig o amgylch Betheda er mwyn ei ail- gylchu. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 wrthi'n creu llyfryn gwybodaeth i fusnesau a siopau lleol i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd. Bydd y llyfryn yn llawn gwaith animeiddio, celf, adroddiadau, cerddi ac ati i dynnu sylw at y mater pwysig hwn.

**Chwaraeon – Pencampwyr Ysgolion Gwynedd 2024!**
Am y tro cyntaf mewn hanes, llwyddodd tim pel-droed genethod Pen-y-bryn i ddod yn fudduguol mewn cystadleuaeth 5-bob ochr Ysgolion Gwynedd am yr ail flwyddyn yn olynol! Yn dilyn cyfres o gemau cystadleuol ym Mhlas Silyn ym Mhenygroes, aeth genod ni ymlaen i drechu tim cryf o Bontnewydd o ddw gol i ddim yn y ffeinal, gan enill  fraint o gynrchioli Ysgolion Cynradd Gwynedd yn y Drenewydd wythnos yn ddiweddarach!

Roedd yr awyrgylch ar Barc Latham, Drenewydd yn llawn bwrlwm gyda phlant, athrawon a rhieni o bob cwr o Gymru yn ymgynnull ar gyfer yr ŵyl genedlaethol. Er i'r genod chwarae'n arbennig gan guro tair gem yn erbyn ysgolion o'r Fflint, Dinbych a Chonwy, yn ogystal â llwyddo i ddal ysgolion o Ben-y-bont a Llanelli yn gyfartal, colli o un gôl, yn yr eiliad olaf yn unig oedd eu hanes yn y diwedd yn erbyn ysgol Treganna o Gaerdydd.  Er hyn, cawsom ddiwrnod arbennig ac mae Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg yn falch iawn o'r genethod unwaith eto!




# Difyrion Digidol

## Deian ap Rhisiart

Rwyf wedi cael rôl newydd o fewn Cymunedau Digidol Cymru yn ddiweddar i weithio gyda grwpiau pobl hŷn a hynny er mwyn hybu defnydd o dechnoleg a gwella sgiliau. Y bwriad yw darbwyllo pobl fod yna bethau da ynghlwm wrth dechnoleg sydd yn gwella ac i raddau o bosib yn newid bywyd.

Nid wyf yma i wyngalchu technoleg, gan fod llawer o effeithiau negyddol yn deillio o dechnoleg i bob oed, yn arbennig pobl ifanc gyda'r cyfryngau cymdeithasol a phobl hŷn o ran sgamiau. Mae'n bwysig bod yn gyfrifol a pheidio bod yn fyrbwyll wrth ddefnyddio teclynau digidol wrth gwrs gan fod llawer o beryglon ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r peryglon i allu osgoi hwy. Gan osgoi'r sgamiau sy'n bygwth pobl hŷn, mae yna ffyrdd da iawn i ddifyru'ch hun wrth ddefnyddio'ch ffôn neu dabled. Yr ydym o fewn y prosiect hwn yn awyddus i weithio gyda phobl yn y gymuned ar sefydlu sesiynau ar hyd a lled Cymru fel cyfle i grwpiau pobl hŷn ddod at ei gilydd. Trwy'r sesiynau, byddant yn wagle i gymdeithasu'n anffurfiol tra'n dysgu sgiliau digidol neu ddatrys problem neu ddwy gyda'ch ffôn tra'n mwynhau 'dished' neu 'baned' a chacen! Byddai sesiynau o'r fath yn fan cychwyn i bobl sy'n amheus o'r digidol i wneud camau bach graddol i ddysgu mwy am ddiogelwch neu unrhyw bwnc perthnasol, heb y pwysau/ ymrwymiad i gwrs ffurfiol IT.

Felly, ydych chi'n drefnydd mewn hybiau cymunedol? Os ydych yn awyddus i hwyluso sesiynau o'r fath, cysylltwch gyda mi i dderbyn cwrs byr i'ch helpu i sefydlu a chynnal sesiynau. Gall 'paned ddigidol' fod yn rhan o sesiynau sy'n bodoli'n barod er enghraifft paned a sgwrs neu foreau dysgu Cymraeg.  Cysylltwch gyda mi trwy Deian.apRhisiart@cwmpas.coop

## Cwis Bob Dydd

Mae yna ddegau o apiau yn gallu rhoi oriau o ddifyrwch, un ap sy'n gynyddol boblogaidd yn y Gymraeg yw Cwis Bob Dydd sydd yn dychwelyd am yr eildro. Ydych chi wedi chwarae eto? I bobl hŷn sy'n chwilio am ddiddordebau ac heriau newydd dyddiol, mae Cwis Bob Dydd yn berffaith i'ch cadw'n brysur a thanio'r celloedd llwyd yn eich ymennydd. Mae'r cwestiynau yn heriol ac yn gyffredinol am Gymru a thu hwnt ac mae'n bosib ennill gwobrau da i'ch teulu ond mae hi'n gystadleuol iawn gyda nifer o gwiswyr eraill ardderchog yn eich hwynebu. Er mwyn chwarae ewch i Google Play Store ar eich ffôn Android neu App store ar eich ffôn Apple a chwiliwch am 'Cwis bob Dydd' yn y chwiliwr ar dop y sgrin. Pan ddaw logo Cwis Bob Dydd i fyny yn y chwilio – pwyswch ar 'install'. Wedyn, ar ôl iddo lwytho ar eich dyfais, maent yn gofyn i chi roi eich manylion yn cynnwys rhif ffôn symudol.  Felly, ewch amdani ac fe fydd yr ap yn eich atgoffa bob dydd os nad ydych wedi cystadlu eto i wneud hynny! Pob lwc! Ewch i'r wefan ganlynol am ragor o fanylion: https://www.s4c.cymru/en/cwis-bob-dydd/

## Y Gerlan

**Cofion Cynhesaf**
'Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed nad ydi Jean Doyle, Glasfryn, Ciltwllan wedi bod yn dda yn a wedi treulio amser yn yr Ysbyty'n ddiweddar. Cofion cynhesaf atoch Jean

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn yn fawr efo teulu Angela Speddy ac Andrew Gareth Jones yn Gwernydd ar ôl colli eu mam Margaret Jean Jones ar y 21ain o Fai. Bu farw Jean yn dawel yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd a hithau ond wedi dathlu ei phen-blwydd yn 80 ym mis Rhagfyr.

'Roedd Jean yn wraig gariadus i'r diweddar Edward Jones (Ned). Yn fam arbennig i Angela ag Andrew, mam yng nghyfraith annwyl Diane a nana gariadus Thomas, Eddie, Jess, Caitlin, Becca a'r diweddar Charlotte, chwaer i Anne a'r diweddar John. 'Roedd ganddi feddwl y byd o'i theulu i gyd a byddent hwy a'i ffrindiau'n ei cholli'n fawr.

Gyrrwn lawer o gariad atoch fel teulu ar yr adeg anodd yma.

**Her a hanner!**
Llongyfarchiadau mawr i Dylan Hughes a'i ffrindiau sydd wedi cwblhau her anhygoel er cof am ei dad, Hefin Hughes. Yr her i Dylan Hughes, Dylan Williams ag Arwyn Griffiths oedd cerdded pellter cyfystyr ag uchder Everest. Fe wnaethant hyn drwy gerdded Crib Goch ac yna ymlaen i wneud y 15 copa ddwywaith(!) cyn mynd fyny ac i lawr yr Wyddfa o Lanberis ddwywaith i ddarfod. Coblyn o sialens! Mae llawer iawn wedi noddi'r hogia' a gobaith Dylan, Lisa Lois ag Elaine ydi cael giât arbennig wedi ei ddylunio er cof am Hefin. Da iawn chi hogia'.

**Llongyfarchiadau**
Penblwydd hapus iawn i Cara Owen, Stryd y Ffynnon, ar ei phen-blwydd yn 18 oed. Mae Cara wedi pasio ei phrawf gyrru hefyd ac felly mwy o reswm i ddathlu! Llongyfarchiadau mawr i ti Cara.

Un arall sydd wedi pasio ei phrawf gyrru ydi Meleri Parry, Gwaen Gwiail. Llongyfarchiadau mawr i ti.

**Penblwydd Hapus Arbennig!**
Penblwydd hapus arbennig i Sion Owen, Rallt Uchaf, a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn 30 yn ddiweddar. Gobeithio bod chdi wedi cael amser da yn dathlu efo teulu a ffrindiau.

## Brenhines Carnifal Bethesda

'Roedd cynnwrf mawr yn Stryd Hir Gerlan wrth i Gwawr Roberts gael ei choroni'n Frenhines Carnifal Bethesda eleni. Cafodd amser bythgofiadwy ac 'roedd yn edrych fel pictiwr! Hoffai Gwawr a'r teulu ddiolch yn fawr i bawb am y dymuniadau da a'r anrhegion ar achlysur ei choroni – mae pawb wedi bod mor garedig. Dyma rai lluniau ohoni ar ei diwrnod arbennig. Llongyfarchiadau mawr i ti Gwawr.



**Gwellhad Buan**
Cofion gorau i Richard Jones, Bryn Caseg sydd wedi cael damwain yn ddiweddar a thorri ei goes. Gobeithio y byddi i'n gwella'n fuan Richard ac yn gwneud y mwyaf o'r amser i orffwys am gyfnod.

**Wyau Pesda**
Os da chi wrth eich bodd efo wyau ac eisiau prynu rhai lleol, yna cysylltwch efo Gareth Jones, Fferm Tai'r Cae, Bethesda. Gallwch archebu Wyau Pesda drwy gysylltu efo Gareth ar 07429636270.

## Gair neu ddau John Pritchard

# SIWT ADDAS

Dwi wedi cael caniatâd i ddweud y stori, ond wedi addo na fyddaf yn enwi neb! Mi gaiff y gŵr bonheddig ei hun wneud hynny os yw'n dymuno. Soniodd am y rheidrwydd oedd arno i wisgo siwt addas i'w waith. Gan ei fod yn ddall i liwiau byddai'n mynd at yr un teiliwr ar hyd y blynyddoedd er mwyn sicrhau bod y siwt newydd yn gweddu i'r swydd. Doedd wiw iddo gyrraedd ei swyddfa mewn siwt anaddas ei lliw, ac felly mor braf oedd medru ymddiried yn y teiliwr dibynadwy ei gyngor. Dim ond wedi blynyddoedd o gyngor a sawl siwt newydd y deallodd y gŵr bonheddig fod y teiliwr hefyd yn ddall i liwiau! Heb yn wybod, roedd prynwr lliwddall y siwtiau wedi ymddiried yn rhywun a rannai'r un gwendid ag ef ei hun. Ond wrth reswm, roedd profiad a sgiliau'r teiliwr yn sicrhau nad oedd hynny'n broblem a bod pob siwt yn gweddu'n berffaith, o ran lliw yn ogystal â steil.

Ymddiried yn yr Un sy'n rhannu eu gwendidau a wnaiff pob Cristion hefyd. Ond nid yn ddiarwybod iddyn nhw eu hunain chwaith, gan fod ymgnawdoliad Iesu Grist yn dangos hynny iddyn nhw. Ynddo ef, daeth Duw yn ddyn. Ac wrth ddod yn un ohonom, roedd yn cofleidio'n cyfyngiadau a'n gwendidau dynol.

Mae ymddiried yn Nuw'n golygu pwyso ar Un sy'n fwy na ni ac uwchlaw i ni. Ymddiried yn yr Un sy'n rheoli dros bob peth; dibynnu arno i'n nerthu a'n cysuro yn wyneb pob math o dreialon; ceisio'i arweiniad mewn amrywiol sefyllfaoedd; galw arno i ymyrryd mewn gwahanol amgylchiadau, yn bersonol ac yn fyd-eang. Ymddiried yn yr Un sy'n gryfach ac yn ddoethach na ni; yr Un sy'n abl i wneud llawer mwy nag y medrwn ni ei ddychmygu na'i ddisgwyl. Ymddiried yn yr Un sy'n berffaith ei holl weithredoedd a'i fwriadau. Ymddiried yn yr Un sy'n nerthol a chadarn: y Duw Hollalluog.

Ond mae ymddiried yn Nuw'n golygu ein bod hefyd yn pwyso ar yr Un a'i tlododd ac a'i darostyngodd ei hun, nid yn unig trwy wisgo cnawd a derbyn ein gwendidau ond trwy gymryd arno'i hun ar Galfaria ein beiau a'n pechodau. Gallai'r teiliwr helpu a darparu'r siwt addas er gwaetha'r ffaith ei fod yn rhannu'r un gwendid a'r prynwr. Ond daeth Iesu Grist yn Brynwr i ni trwy gymryd ein gwendidau a'n beiau. Roedd rhaid iddo wneud hyn er mwyn estyn i ni faddeuant a'n dwyn i berthynas ag Ef ei hun a rhoi i ni obaith y bywyd tragwyddol. Trwy gymryd ein pechodau a dwyn – ar y Groes – y gosb amdanynt yn ein lle, mae Iesu Grist wedi sicrhau i ni siwt well na'r harddaf a'r drutaf o siwtiau'r byd. Mae wedi darparu ar ein cyfer siwt a fydd yn ein gwneud yn lân a pherffaith yng ngolwg Duw.

A rhan o ddirgelwch y Ffydd a'r Efengyl yw'r ffaith na fedrai'r Duw Hollalluog hyd yn oed gynnig i ni'r bendithion hyn heb iddo'i ddarostwng ei hun.

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Llongyfarchiadau**

Ar 25 Mai dathlodd Carys ac Alan Parry, 28 Caerhun, eu Priodas Arian, sef 50 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r ddau.

**Cydymdeimlad**

Ar 18 Mai bu farw Mrs Olwen Roberts, Llys Meirion, Caernarfon, (Penhower Uchaf, Caerhun, gynt) yn nghartref ei merch Eleri, a Dylan ei gŵr yn 92 mlwydd oed. 'Roedd yn wraig i'r diweddar Garmon, fu'n dysgu llawer iawn i yrru ceir. 'Roedd yr angladd yng Nghapel Berea Newydd ar 28 Mai a rhoddwyd i'w orffwys ym Mynwent Pentir. Cydymdeimlwn a'r teulu yn eu colled a'u galar.



**Sioe Dyffryn Ogwen**

Llongyfarchiadau i Cadi Griffith, Bryn Gwerdog Isaf ar gael 1af gyda Dafad Magu "Speckle" a dau 3ydd gyda Dafad Magu a'i Oen Gwryw. Cafodd 1af hefyd yn y gystadleuaeth Teisen Fictoria, nid yn unig hynny ond fe gipiodd y wobr "Gorau yn y Sioe"! Da iawn chdi Cadi!

**Dymuniadau Gorau**

Anfonwn ein cofion a dymuniadau gorau at y rhai sydd heb fod yn dda yn ddiweddar, Mrs Carol Jones, Heulwen, Glasinfryn, Mrs Nesta Parry, Tŷ Capel, Caerhun a Mr Arfon Thomas,Llanfairpwll (gynt o Waen Wen). Hefyd pawb arall o'r ardal sydd ddim mewn iechyd da ar hyn o bryd.

**Cylch Glasinfryn**

Croesawodd Mair nifer dda i gyfarfod y Cylch ar bnawn Mercher 8 Mai. Y siaradwraig wâdd oedd Heather Broughton a 'roddodd sgwrs drwy gyfrwng lluniau "Hanes Gerddi Agored".

Dechreuodd y stori yn Lerpwl lle bu i William Rathbourne, gŵr bonheddig dalu am ofal yn y cartref i'w wraig wael, wedi iddi farw fe sefydlodd cynllun nyrsio cartref am ddim er cof amdani. Ar gyngor Florence Nightingale yn 1900au, estynwyd y syniad i sefydlu Cynllun Ardal Nyrsio Cartref. Ariannwyd y cynllun gan bobol cyfoethog fel y Brenin Sior V a agorodd y gerddi yn Sandringham i'r cyhoedd a oedd yn talu am fynediad. Yn 2023 fe godwyd £3.5 miliwn drwy ffïoedd mynediad, byrddau gwerthu a lluniaeth, gyda'r elw yn mynd at elusennau fel Nyrsus MacMillan, Marie Curie, Parkinsons ac llawer eraill yn y Sector Iechyd. Anogodd Heather i ni fynychu y gerddi agored ymhell ac agos i fwynhau gerddi godidog, neu hyd yn oed ystyried agor ein gerddi ein hunain!

Diolchwyd i Heather am ei sgwrs ddiddorol gan Jean Pierce a rhoddwyd y te a'r raffl gan Liz Pollock a Doreen Meacock.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 12 Mehefin pryd y cawn sesiwn o "Ioga o'r Gadair" gyda Ellie Evans, yna ar 10 Gorffennaf awn am dro i Amgueddfa Penmaenmawr i weld y creiriau a hanes diddorol sydd yno, i'w ddilyn gyda the yn y caffi.

**Y Ganolfan**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn y Ganolfan ar 23 Mai. Ail etholwyd Jocelyn Bowen yn Ysgrifennydd a Mair Griffiths yn Drysorydd. Mae sedd wag i'r swydd Cadeirydd, felly os hoffech fod yn gysylltiedig a'ch Canolfan leol cysylltwch â Mair,(manylion, fel yr uchod) Mae angen eich cefnogaeth! Trafodwyd nad oedd y Ganolfan yn cael ei defnyddio mor aml ag y dymunir. Mae yn neuadd gyfforddus, glud gyda thelerau llogi ffafriol iawn! Felly os hoffech logi y Ganolfan at unrhyw weithgaredd, cysylltwch â Mair. Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones, Clerc Cyngor Cymuned Pentir a'r Cynghorydd Dafydd Meurig i'r Cyfrafod. 'Roedd y Cynghorydd Dafydd Meurig yno fel cynyrchiolydd Ynni Ogwen i roi cyflwyniad o'r posibilrwydd o osod Paneli Solar ar dô y Ganolfan. Cytunwyd gyda'r fenter wedi cael asesiad manwl yn dilyn ymgynghoriad.

**Bingo Bach**

Cafwyd noson llawn hwyl yn y Bingo ar 24 Mai. Codwyd £186 at Gyfeillion Ysbyty Eryri i'w wario ar y Ward Strôc. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich haelioni tuag at y gwobrau bingo, raffl a thombola. Bydd y Bingo nesaf ar 28 Mehefin am 7yh, dowch yn llu cewch gymdeithasu a chyfle i ennill gwobrau da!



**Haelioni**

Ym mis Ebrill eleni cynhaliodd Ann Jones, 1 Bryn y Pwll, ddau barti (ym Mangor a Chaerdydd) i godi arian tuag at Ymchwil Canser Cymru. Tra'n rhannu atgofion a hanesion hwyliog yng nghwmni difyr aelodau o'i theulu a'i ffrindiau, yn cynnwys rhai o'i chyn gydweithwyr yn theatr a theledu, codwyd £2,000 i'r elusen. Dyma Ann gyda Cefin a Rhian Roberts (sydd hefyd yn byw yn lleol) yn yr achlysur ym Mangor.

1969
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS**

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati (yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

# YSGOL BODFEURIG

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn yn yr ysgol yn llawn o ymweliadau ac ymwelwyr yn ogystal a digwyddiadau ar dir yr ysgol. Cofiwch gallwch bellach gadw llygaid ar ein hanes ar ein tudalen Facebook!

**Undeb y Chwarelwyr**

A ninnau yn byw o fewn tafliad carreg i Chwarel y Penrhyn roedd hi'n bleser cael croesawu Mari o'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis acw i gynnal gweithdy go arbennig gyda dosbarth Ogwen. Pwrpas yr ymweliad oedd i greu banner fuasai yn cael ei ddefnyddio mewn gorymdaith i ddathlu 150 mlynedd ers sefydlu Undeb y Chwarelwyr.

Cafodd pawb fore diddorol, nid yn unig yn dysgu am waith pwysig undebau ond hefyd yn gwneud amrywiaeth o waith celf. Cafodd y gwaith ei roi at ei gilydd gan Mari ac mae bellach yn cael ei arddangos yn yr Amgueddfa – cadwch lygaid os fyddwch chi'n mynd yno!

**Diwrnod Lliwgar**

Mae'n draddodiad acw bellach i gynnal diwrnod lliwgar ar ddiwedd y gwanwyn. Cyfle i glirio gerddi yr ysgol a paratoi ar gyfer yr haf trwy blannu blodau a llysiau gwahanol.

Gweithiodd plant dosbarth Ogwen yn brysur iawn yn clirio'r chwyn cyn i bawb gael cyfle i blannu planhigion newydd.

Yn ogystal cafodd rhai o aelodau'r Cyngor Eco fynd am dro i Fron Goch i gael cyngor ar y planhigion gorau ar gyfer ein gerddi cyn cael prynnu rhai ohonynt. Rydym yn gyffrous iawn i wylio'r ardd yn tyfu a datblygu dros y misoedd nesaf.

**Sesiwn BSL gyda Steph**

Er fod llawer o blant yr ysgol yn ymwybodol o arwyddion ar gyfer pobl byddar cafodd pob un eu hysbrydoli i ddysgu mwy pan ddaeth Steph a chriw Talking Flight Theatre acw i ddysgu mwy i ni. Cafodd pawb prynhawn arbennig yn dysgu'r wyddor, sut i ddweud eu henwau, cyfarchion a theimladau. Roedd bod yng ngwmni y criw yn bleser ac rydym yn gobeithio dal ati i ddysgu mwy o arwyddion yn y dyfodol agos.

**Prosiect Seagrass**

Yn ystod tymor yr haf rydym yn edrych yn fanylach ar arfordir Cymru. Fel rhan o'r astudiaeth yma rydym am fod yn cydweithio gyda cynllun arbennig sef Project Seagrass. I sbarduno ein gwaith daeth Amlyn ac Amel sy'n gweithio ar y prosiect ac Guilia o Natur am Byth acw i ddysgu mwy i ni am y prosiect ac am y bywyd gwyllt sydd i'w weld o gwmpas arfordir Cymru. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i'n hymweliad a Porthdinllaen y mis nesaf i weld y prosiect ar waith!

**GwyrddNi**

Diolch i Angharad a Chris, y ddau eisoes yn ffrindiau i'r ysgol, am ddod draw i gynnal gweithdai oedd yn edrych ar newid hinsawdd. Cafodd pawb lawer o werth o'r sesiynau ac roedd yn braf cael rhannu syniadau am sut allwn ni ymateb i newid hinsawdd yma yn Nyffryn Ogwen.




**Llangrannog**

Aeth criw o flwyddyn 5 a 6 yr holl ffordd i Llangrannog ddechrau'r mis. Cafwyd llawer iawn o brofiadau, o ddringo i sgio, o yrru o gwmpas trac i saethyddiaeth. Cafodd pawb amser gwych yn dysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd. Diolch i Miss Davies am fynd a nhw!



**Taith Rhaeadr Fawr**

Y tymor diwethaf bu dosbarth Ogwen yn edrych ar ryfeddodau'r byd cyn edrych yn fanylach ar rai o ryfeddodau Cymru. Daethant i'r canlyniad for Rhaeadr Fawr Abergwyngregyn yn un o'r rhyfeddodau yma felly rhaid oedd mynd yno am dro i weld y rhaeadr dros ein hunain. Cawsom dro hyfryd i fyny cyn treuluio amser yn sgetsio a myfyrio wrth edrych ar y rhyfeddod yma. Tybed ble fuasech chi'n ystyried yn ryfeddodau Cymru?


# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk

# AILFFRAMIO



Bu'r artist tecstiliau Anna Pritchard o Rhiwlas yn cynnal gweithdai gyda dysgwyr celf blwyddyn 9 Ysgol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar fel rhan o broses creu arddangosfa newydd a fydd i'w weld yn fuan yng Nghastell Penrhyn.

Mae'r castell yn gartref i baentiad mawr o Chwarel y Penrhyn a gomisynwyd ym 1832 gan George Hay-Dawkins Pennant, a hwnnw sydd yn sail i'r arddangosfa 'Ailfframio'. Estynodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wahoddiad i rai o grwpiau cymunedol Bethesda i gael cyfle i ymateb i'r paentiad a mynegi eu barn cyn eu partneru gydag artistiaid lleol i greu gwaith celf eu hunain yn adlewyrchu ar y paentiad, beth mae'n dangos neu ddim, eu cysylltiad i'r chwarel a'u cymuned nhw erbyn hyn.

Sylwodd y grwp o flwyddyn 9 Ysgol Dyffryn Ogwen ar y gwahaniaeth yn y llun gwreiddiol rhwng y bobl "posh" - yr ymwelwyr o'r cyfnod oedd yn dod i weld y chwarel lechi fwyaf erioed - a'r gweithwyr cyffredin ac roedden nhw'n poeni llawer hefyd am ddiogelwch ac amodau gwaith y dynion, a'r ffaith nad oedd merched i'w gweld yn y llun.

Fel dylunydd tecstiliau, penderfynodd Anna ymchwilio'r dillad oedd yn cael ei gwisgo gan chwarelwyr yn y cyfnod a dewis crys ar gyfer rhan o'r gwaith i'w greu efo'r disgyblion.

"Aethom ati i greu portreadau o'r chwarelwyr yn defnyddio technegau tecstiliau a'u hychwanegu ar lewis y crys, tra bod grwp arall yn gweithio i greu creigiau mewn ffurf *cubism* gan ddefnyddio amrywiaeth o liwiau o ddefnydd er mwyn greu siâp creigiau chwarel a hynny sydd i weld ar y tu blaen"

Mae cefn y crys yn cynnwys cynnyrch mwy o waith ymchwil gan Anna a'r disgyblion. "Daeth i'r amlwg fod yna ddalthliad wedi bod yn y pentref pan ddaeth y Dywysoges Victoria i'r chwarel i ryfeddu. Roedd pobl wedi tanio tân gwyllt wrth iddi ddod i mewn i Bethesda felly mae tân gwyllt i weld ar y crys. Yn y peintiad mae yna fachgen ar ei benaglinau yn pwyntio tuag at yr awyr. Mae son ei fod yn cyfeirio at Jeriwsalem. Mae yna bentref yn Jeriwsalem o'r eww Bethesda ble mae pobl gyda salwch difrifol yn cael ei trochi mewn pwll a'i gwella. Mae yna hefyd gapel o'r enw Jeriwsalem ym Methesda felly mae'r bachgen i'w weld ar gefn y crys."

Ymchwiliodd Anna hefyd i rôl y merched yn y cyfnod sef i gadw y cartref yn daclus, golchi dillad a gofalu am y plant a creuwyd dillad yn defnyddio defnyddiau gwahanol a'u hychwanegu ar gefn y llewis. Mae'r dillad bach I'w gweld yn hongian ar lein ac mi ychwanegodd Anna raffau i'r crys i gynrychioli'r rhaffau y byddai'r chwarelwyr wedi ei ddefnyddio i fynd i fyny at y creigiau enfawr.

Wrth dynnu sylw at beryglon amlwg y chwarel roedd y dysgwyr wedi tynnu sylw at a chymharu'r dillad a fyddai'n cael ei gwisgo yn yr deunawfed ganrif gyda dillad heddiw, ac felly'r gwaith yn yr ail weithdy oedd i addurno trowsus a siaced 'high vis' fel y mae'r chwarelwyr yn ei wisgo.

"Roeddwn eisiau creu portreadau o'r chwarelwyr heddiw yn eu dillad diogelwch sef mwgwd ac gorchyddion clustiau." meddai Anna " A llwyddodd y disgyblion i greu y portreadau gwych gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau er mwyn creu tôn y croen a'u dillad diogelwch."

Roedd y rheswm y mae pobl yn cael eu denu i'r chwarel hefyd yn cael sylw a chreodd rhai disgyblion luniau o bobl yn gwibio lawr y wifren wib ac yn gyrru o amgylch y chwarel gan beintio ar ffabrig. Cafodd un grwp gyfle i argraffu ar ddeunyddiau er mwyn creu y creigiau y chwarel.

Esbonia Anna "Mae pobl yn dal i ddod o pob cwrdd o'r byd er mwyn rhyfeddu at dirwedd y chwarel a oedd unwaith y mwyaf yn y byd. Rydan ni wedi ychwanegu geirfa'r chwarel ar y crys a'r dillad oren hefyd" meddai "Mae yna hen enwau y ponciau a rhai geiriau sydd yn cael ei ddefnyddio heddiw er mwyn cyfeirio at rannau gwahanol o'r chwarel. Mae rhai yn enwau sydd i gofio am rhai o'r dynion a cafodd ei lladd yn y chwarel , a llefydd a digwyddiadau penodol."

Bydd y darnau a wnaed gan Anna a'r myfyrwyr i'w gweld yn y neuadd fawr yn Castell Penrhyn o fis Gorffennaf a hynny gyda gweithiau celf eraill a wnaed ar y cyd efo'r gymuned a'r artistiaid lleol eraill Jŵls Pritchard a Rhiannon Gwyn. Mae Anna yn edrych ymlaen at weld y gwaith i gyd efo'i gilydd yn yr ardddangosfa ac yn gobeithio y bydd ymwelwyr yn dysgu mwy am y cysylltiad rhwng y castell, y chwarel a chymuned Dyffryn Ogwen.

---

## Calendr Llais Ogwan 2025

Lluniau ar gyfer Calendr 2025 i mewn cyn **23 Mehefin 2024**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried.



**Lluniau fformat tirlun, os gwelwch yn dda**

*Cofiwch :*

- *nodi lle y cymerwyd y llun, rhoi teitl i'r llun, a cynnwys eich cyferiad a'ch enw*

Anfonwch eich llun(iau) trwy ebost at: calendr2025@outlook.com

**Bydd y calendr ar werth ym mis Hydref – tybed fydd eich llun chi ynddo fo?**

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**EGLWYS SANT CEDOL, PENTIR**

## Sain Cerdd a Chân



**Nos Wener, Mehefin 21ain am 7.30.pm.**

Noson o gerddoriaeth a llên yng nghwmni

**Sharon Williams**
(Organyddes yr Eglwys)

**Sioned Roberts**
(Clarinet)

**Cedron Sion**
(Enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel)

**Cai Fôn**
(Enillydd Gwobr Richard Burton)

ac aelodau eraill o'r eglwys

**Pris Mynediad yn £5**

(Bydd elw'r noson yn mynd tuag at ymgyrch atgyweirio'r eglwys)

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

Mehefin 25
Gorffennaf 9, 23 a 30
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00

**Gorffennaf 1af**

Croeso cynnes i bawb

**FESTRI BETHLEHEM TALYBONT**

## TE MEFUS



Dydd Llun,
24 Mehefin
am 7 o'r gloch

Mynediad : £2.00

***Elw at y capel***

**CEFNFAES (LLAWR UCHAF)**

**BORE COFFI EISTEDDFOD GADEIRIOL DYFFRYN OGWEN**

Sadwrn, 29 Mehefin
10.00 – 12.00
Mynediad : £1.00

## CLWB CREFFT CEDOL

Eglwys St. Cedol, Pentir

**2ail a 4ydd Dydd Gwener**

**2.00 – 3.30yp**

(Yn dechrau – 12.06.2024)

£3.00

*Dewch a'ch crefft i gael hwyl, paned a sgwrs*

## Marchnad Ogwen

**Gorffennaf 13eg**

**9.30am - 1pm**

**Neuadd Ogwen**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk

**VENUE CYMRU LLANDUDNO**

## Cyngerdd

**Côr Penrhyn a'r Black Dyke Band**

**Nos Sadwrn, 13 Gorffennaf**

(Gobeithir trefnu bws o Fethesda - Bws wennnol 15 sedd Partneriaeth Ogwen)

**Pris: £10 y pen**

Tocynnau'r cyngerdd ar werth gan aelodau'r Côr

Rhagor o fanylion gan Emyr Roberts

**07876 500101**

emyr.roberts2@btinternet.com

## Dyddiadur Boreau Coffi



### 2024

**29 Mehefin** – Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen – Llawr Uchaf Cefnfaes.

**28 Medi** – Clwb Gorffwysfan – Festri Jerusalem.

### Pwysig

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos bob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

Dilynwch
Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

# Ambell Air ac Ymdrodd

**ceffyl dall.** Pan fyddai pêl-droediwr yn methu cicio'r bêl neu yn ei chicio'n gam, byddai rhywun yn y dorf yn siŵr o weiddi "Be ti'n 'neud, y ceffyl dall?". Dywediad arall fyddai "Dos â dy draed i'r efail" , hynny ydy cael y gof i sythu ei draed fel ei fod o'n medru cicio'r bêl yn syth!

**sbloets.** Miri a dathliad ydy hwn – "Gawn ni barti mawr ar ei phen-blwydd hi. Mae hi'n haeddu sbloets." Mae o hefyd yn medru golygu gwneud sioe o bethau – "Gwneud sbloets heb fod isio oedd hyn'na."

**dipyn o drwyn.** Disgrifio rhywun ffroen-uchel mae'r ymadrodd hwn, un yn meddwl ei fod o neu hi yn well na rhywun arall – "Mae hi wedi mynd yn dipyn o drwyn ar ôl priodi'r dyn cyfoethog 'na."

**siort.** Mesur bychan o ddiod feddwol – "Gymi di siort,'ta peint?"

Defnydd arall o'r gair ydy bod yn 'siort' efo rhywun arall – " Roedd o'n siort iawn efo fi, dim i'w ddweud, mae'n rhaid fy mod wedi ei bechu!" Clywais air arall am hwn gan Olwen Jones, sef 'siosi' dyna fydda nhw yn ei ddweud yn ardal Pontllyfni.

**lardy.** 'Ladd-dy' ydy hwn – adeilad lle mae anifeiliaid fferm yn cael eu lladd ar gyfer cael cig i'w werthu yn y siopau. 'Lardy' ddywedwn ni ar lafar. Roedd nifer ohonyn nhw yn yr ardal tan yr 1960au.

**dos i ganu.** Defnyddir yr ymadrodd hwn wrth wrthod rhywbeth, a hynny'n bendant – "Sgen ti fenthyg pumpunt imi?" A'r ymateb – "Dos i ganu!"

**tada.** Dyma fyddai'r hen do yn galw eu tad – "Ydach chi'n dŵad hefo ni, Tada?"

**rhoi'r goes iddi.** Mynd o rywle'n go sydyn ydy ystyr hwn, fel 'ei heglu hi' ac 'ei gleuo hi'.

**slots/slotsh.** Sialóts ydy hwn – *spring onions* yn Saesneg.

**cnafon.** "Cerwch o'ma'r cnafon bach!" Dyma fyddai i'w glywed pan fyddai rhyw blant anystywallt yn cam-bihafio a gwneud drygioni o gwmpas y lle. 'Cnaf' ydy rhywun o gymeriad gwael – dihiryn.

**sbenglas/sbinglas/sbeinglas.** Dyma ddwedwn ni am '*binoculars*' ('*field-glasses*').

**rhisg.** Dyma ddwedwn ni am 'risgl' coeden.

**llnau'r llawr.** Dywediad am gael y gorau ar rywun, drwy 'ei deud-hi' hi'n go egar – "Mi 'nes i llnau'r llawr efo fo."

**difia.** Ffordd arall o ddweud Dydd Iau ydy 'Difiau'.

**lybeindian** neu llybeindian, - "Paid â lybeindian arnaf fi" sef gafael ar rywun arall i'w cynnal, fel petae rhyun wedi blino neu'n rhy ddiog i gynnal eu hunain.

**socsan** Mae ambell un wedi cael 'socsan' wrth gerdded mewn cae gwlyb, neu gors, neu chwarae ar lan yr afon ers talwm. Byddai ambell waedd "O na! Dwi di cael socsan." i'w clywed pan fyddai rhywun wedi rhoi ei droed mewn tir gwlyb.

Mae'r gair hefyd, wrth gwrs, yn cael ei ddefnyddio pan fo rhywun yn cael siom, neu rhywbeth y digwydd i'r gwrthwyneb i'r hyn oeddynt wedi ei ddyfalu – "Ges di socsan rwan do!"



**pydru 'mlaen** Dyna a wnawn wrth gyflawni tasg neu waith arbennig a honno, efallai yn anodd neu yn cymeryd cryn amser. Byddwn yn pydru 'mlaen nes inni orffen.

**Sleifar** "Mae hwnna yn sleifar o gar" sef car smart neu grand. A'r gair **crand** hefyd sydd ddim yn cael ei ddefnyddio fel 'mawr fel y *grand* Saesneg ond rhywbeth sydd yn edrych yn dda – "Ew mi rwyt ti'n grand yn dy ddillad newydd."

Hoffwn ddiolch unwaith eto i Sandra Howell. Mae llawer yn dweud eu bod wedi meddwl am eiriau ond heb eu taro i lawr.

Beth am eu hanfon i mi ar *WhatsApp*, fy rhif ffôn ydy 07443047642, ffordd hawdd sydd yn sydyn os oes gennych fynediad iddo. Gallwch gysylltu hefyd â mi ar maryeds@hotmail.co.uk neu 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN


SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru



SIÂN GWENLLIAN
AELOD O'R SENEDD DROS ARFON



CYSYLLTWCH:
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor
Senedd Cymru
Welsh Parliament

Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Babanod newydd**

Ar yr 2ail o Fai, ganwyd Zachary George ( Zac) i'w rieni balch, Lorna ac Adam, 10 Bro Emrys. Mae Charlie wrth ei fodd efo'i frawd bach, a Ron a Thelma, hen-daid a nain rownd y gornel, wedi gwirioni'n lân. Pob bendith arnoch i gyd fel teulu.

Llongyfarchiadau i Marilyn ac Alun, 78 Bro Emrys, ar ddod yn nain a thaid, ac i Ben ar ddod yn ewythr am y tro cyntaf. Ar Ddydd Sul y Pasg, ychydig yn gynt na'r disgwyl, ganwyd Sophia Billie King i'w merch Katie a'i phartner Dion, o Fangor. Mae'r fechan yn ddigon o ryfeddod ac yn dod yn ei blaen yn ardderchog.

**Swydd newydd**

Llongyfarchiadau i Catrin, merch Gary ac Alison Pritchard, 40 Bro Emrys, fydd yn dechrau ar ei gyrfa fel bydwraig yn Ysbyty Gwynedd ym mis Medi.

Mae Catrin wedi gweithio'n galed iawn i gwblhau ei chwrs tra'n magu teulu ifanc. Dymunwn bob bendith a dedwyddwch iddi yn ei swydd newydd.

**Priodas**

Estynnwn ddymuniadau gorau'r gymdogaeth i Tammy a Nick, 30 Cae Gwigin, ar eu priodas ar Fai 11eg yn Neuadd Hendre. Cawsant dywydd bendigedig; diwrnod poetha'r flwyddyn hyd yn hyn. Iechyd da a hir oes i'r ddau ohonynt !

**Pencampwr**

Am y trydydd tro yn olynnol, mae Mitchel, 70 Bro Emrys, wedi dod yn Bencampwr Cymru. Mae o'n baffiwr ardderchog, a'r amser mae o'n rhoi i berffeithio ei grefft yn talu iddo ar ei ganfed. Rydym i gyd yn falch iawn ohonot, Mitchel, ac yn edrych ymlaen at glywed mwy amdanat yn y dyfodol.

**Fan y Post**

Drigolion Talybont, mae amser fan y Post wedi newid !

Bydd Mathew yn dod i Gae Bach am 2:50 bob bnawn dydd Mercher, ac yn aros yno am ryw ugain munud, cyn symud i'w le arferol wrth Fro Emrys. Bydd yn gadael y pentref am 3:30.

Gobeithio bydd y ffyddloniaid yn dal i'w gefnogi. Mae Mathew yn cynnig gwasanaeth gwerthfawr iawn i'r cymunedau mae'n ymweld â nhw. Mi fyddai'n golled mawr inni, petai'r Swyddfa Bost yn penderfynu dod â'r gwasanaeth i ben.

**Torri gwair**

Mae'r Cae 'swings' a chae chwarae'r plant yn edrych yn arbennig o dda y dyddiau hyn, diolch i waith caled y Cynghorwyr Wyn Bowen Harris, Ifan Wyn Jones a Rhydian Williams. Mae cychwyn torri cae mor fawr yn dipyn o gontract, a diolchwn i aelodau'r Cyngor Cymunedol am fuddsoddi mewn peiriant digon cryf i ymdopi â'r dasg. Mae'n destun diolch bod gennym Gynghorwyr, a gwirfoddolwyr eraill, sy'n fodlon rhoi eu hamser a'u hegni i wneud y cae yn le braf i'r plant chwarae ynddo, ac i wella golwg y pentref.

**Arholiadau**

Mae nifer o bobl ifainc Talybont ynghanol arholiadau fydd yn effeithio ar eu dewisiadau ar gyfer y dyfodol. Maen nhw'n gweithio'n galed iawn ac yn haeddu llwyddo. Dymunwn bob lwc iddynt, un ac oll.

**Amlenni Cymorth Cristnogol**

Diolch o galon i bawb a fu mor garedig â dod â'i amlen Cymorth Cristnogol yn ôl i 1 Dolhelyg. Mae'n help garw i'r Casglwyr erbyn hyn.

**Capel Bethlehem**

*Oedfaon (am 2 o'r gloch).*
Mehefin 23: Parchg. Cledwyn Williams.
Mehefin 30: Parchg. Gwenda Richards.
Gorffennaf 07: I'w gyhoeddi.
Gorffennaf 14: Parchg. John Pritchard.
Gorffennaf 21: I'w gyhoeddi.
Gorffennaf 28: Parchg. Anna Jane Evans.
Croeso cynnes i bawb.

**Te Mefus**

Cynhelir ein Te Mefus blynyddol yn y festri am 7 o'r gloch nos Lun, 24 Mehefin. Mynediad £2.00.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu.



**Llwyddiant yn y Sioe**

Llongyfarchiadau i Barbara Jones, Dolhelyg, ar ennill pedair gwobr yn Sioe Dyffryn Ogwen ar 1 Mehefin.



# Teyrnged Selwyn Owen

**Pennod**

"Fy nhad sy'n arwr i mi
Diolchaf am ei gwmni,
A'i nerth i nghadw i i fynd
Fy ffrind trwy bob yfory "



Ganwyd Dad i Lilly a William Owen, yn un o 5 o blant ac yn byw yn fferm y Pandy yn Sir Fôn. Fe gollodd ei dad pan oedd ond yn ddeg oed a symudodd y teulu i Pentir ac yna i Felin Hen.

Roedd Dad yn sôn yn aml am weithio yn Fferm Garth Fawr, a yna yn Tŷ Mawr. Gwaith peryg medda fo, yn enwedig pan fu i darw ddod amdano a bu iddo ond glirio y giât mewn amser!

Motobeics oedd ei bethau dyddiau yna, a tripiau gyda'r hogiau i Blackpool yn mhob tywydd. Wrth fynd trwy lluniau, mi welom griw ffasiynol iawn a Dad yn dipyn o bishyn!

Dim rhyfedd felly i Mam fopio wedi ei gyfarfod ar noson allan yn y *British Hotel* yn Fangor. Buont briodi yn 1965 yng Nghapel Gerlan, a setlo yn 12 Ffordd Ffrydlas. Yn fuan wedyn ganwyd Alwena, i ddilyn gan Nerys a Medwyn. Cartref hapus iddo ers 60 o flynyddoedd ac yn galw Bethesda yn "Little Switzerland" a'r "lle agosâ ir nefoedd".

Roedd ei grefydd yn bwysig iawn iddo, fel teulu buodd Capel Gerlan, Capel Carneddi a Chapel Jeusalem yn rhan fawr a phwysig yn ein bywydau. Roedd Dad ar bwyllgor cynnal a chadw Capel Jerusalem, ond roedd gwneud y gwaith yn apelio fwy at Dad yn hytrach na'i drafod.

Mae rhif 12 wedi cael mwy na 1 estyniad, ac bu rhaid i ni fel teulu fyw gyda Nain yn Gerlan am gyfnod tra roedd Dad yn gwneud gwaith ar y tŷ. Estyniad ochor bellach ymlaen wedi ei wneud wrth gwrs i greu ystafell wnïo i mam. To ffelt ar un tro ond to llechan erbyn hyn.

Cofio Dad yn ail wneud y grisiau i dop yr ardd, a nunlle i mam sunbathio – roedd gan Dad ateb i bob dim – matras ar ben y wal gafodd hi. O ran gwaith addurno y tŷ, roedd mam o hyd yn gobeithio am law gan mai dyma oedd yr unig amser fysa Dad yn gwneud y jobsys oedd hi yn ei ofyn o fewn y tŷ.

Allan oedd Dad o hyd, yn ei waith ac hefyd yn ei ardd. Ar ôl i ni blant dyfu fyny, buodd newid yr ardd i fod yn ardd lysiau. Tatws yn hadu ar silff ffenast lloft gefn yn barod i'w plannu, ynghyd a phys, riwbob, mefus a tomatos yn y tŷ gwydr. A wedyn y blodau! Mae sioe werth ei gweld wrth fynd fyny allt Ffordd Ffrydlas. Roedd yn handi iawn dod i tŷ Dad i ni nol ein blodau i'n gerddi ni – roedd dad wedi gwneud y gwaith caled o'i tyfu o hadyn yn barod i'w rhannu.

Roedd Mam o hyd yn gofyn i gael torri y blodau i dod i'r tŷ, ond fyddai hyn ond yn digwydd os fysa y tywydd wedi ei torri, neu os oeddent wedi cael ei torri yn barod i gystadlu yn Sioe Dyffryn Ogwen. Roedd paratoi i'r Sioe yn gyfnod prysur yn tŷ ni rhwng Mam a Dad, roedd bwrdd y gegin yn llawn cacennau, llysiau, blodau a dillad. Ac yn amlach na ddim, yn dod adra gyda cwpan neu ddwy.

Mae wal sied dad wedi ei llenwi gyda cardiau coch "First prize" dros y blynyddoedd.

Dyn teulu oedd Dad, a fasa'n gwneud rywbeth i ni unrhyw dro. Roedd gwylia' yr haf yn bwysig, a byddem yn mynd i lawr i unnai Devon neu Cornwall bob blwyddyn yn y garafán. Pythefnos braf yn treulio amser ar lan y môr, a mam yn gwneud gwisgoedd ffansi i ni wrth i ni ymuno â gweithgareddau y maes carafannau.

Roedd Dad hefyd yn sicrhau ein bod i gyd yn cael sioe tân gwyllt yn Cae Crwn – sef yr ardd gyferbyn a'r tŷ – ddoth diwedd i'r sioeau yma wedi i Dad danio y tân gwyllt a oedd yn y tin i gyd ar yr un amser – damwain wrth gwrs.

Atgofion melys i ni'n tri wrth gofio am ein magwraeth.

Wedi i ni dyfu fyny, bu i Mam a Dad drafeilio tramor ac wedi mwynhau yr amser yma gyda'i gilydd. Bu iddynt fynd am Caribbean Cruise gyda chwaer mam, Anti Sheila ac Uncle Emlyn – wel, fuodd Mam yn trefnu eu gwisgoedd am fisoedd am honno, a mae lluniau gwych gennym ohonynt o'r amseroedd hapus iawn yma.

Gweithio i Pochin buodd Dad am 30 mlynedd, a bu yn fforman ar lawer o safleoedd - Parc Menai a safle Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon i enwi ychydig, a roedd dal mewn cysylltiad gyda'i gyd-weithwyr yn dilyn ei ymddeoliad.

Bu hefyd iddo bryd hynny benderfynu fod angen hobi newydd arno. A dyma pryd cyrhaeddodd y tractor cyntaf! Y Ffergi Bach Llwyd. Byddai am oriau yn y garej yn adfer y tractor bach ond roedd rhaid ar ôl gorffen cael un arall. Rhan mawr o atgofion y wyrion a gor-wyrion oedd gwylio Taid yn dreifio y tractor yn Sioe Dyffryn Ogwen.

Yn dilyn colli Mam yn 2012, bu i Dad droi ei ddwylo i wneud cacennau. Bu ddechrau gyda cacen sbwng, ond cyn bo hir roedd yn gwneud bara brith, crumbles ac yn reit enwog am ei gacen lemon.

Erbyn hyn roedd y cacennau hefyd wedi cyrraedd y sioe.

Roedd llenwi ei amser yn dilyn colli mam yn bwysig iddo. Mi ddechreuodd chwarae Whist ac yn mwynhau cwmni ei gyd-chwaraewyr, bu iddo wirfoddoli yng Nghastell Penrhyn am gyfnod yn gyrru ymwelwyr i fyny ac i lawr or maes parcio ar y Golf Buggy, ac hefyd am gyfnod yn gweithio ar hen linelli trên gyda Yncl Emrys yn Sir Fôn.

Mae Clwb Pêl-Droed Bethesda wedi bod yn rhan fawr o fywyd Dad dros y blynyddoedd. Roedd yn torri gwair y clwb am un cyfnod, ac yn ddiweddar byddai'n casglu'r arian wrth fynedfa y cae ym mhob tywydd.

Roedd wrth ei fodd yn mynd i gemau adra, ac i ffwrdd a dilyn llwyddiannau y tîm. Lerpwl oedd ei dîm, a roedd ambell i dynnu coes gan bod un neu ddau yn ein teulu y cefnogi Man U!

Yn ddiweddar bu i Lowri ei wyres fengaf ddechrau chwarae pêl-droed i dîm merched Bethesda o dan 13, a roedd mwynhau mynd yno i'w gwylio yn chwarae. Roedd wrth ei fodd yn cael clywed faint oedd Lowri wedi sgorio ac yn falch iawn ohoni. Fel yr oedd o ohonom i gyd, ac yn rhan mawr o'n bywydau.

Byddai'n deud yn amal ein fod yn deulu lwcus, gan ein bod i gyd mor agos, a fod y cefndryd yn dal i fod yn ffrindiau mawr. Yr oedd hyn yn wir hefyd am ei or-wyrion, Taid Pesda oedd o eisiau iddynt ei alw, nid Hen Daid wir!

Mae colli ein Tad am newid ein bywydau yn ofnadwy, gan ei fod yn rhan mor fawr ohono. I fod yn onest, tyda ni ddim yn siŵr be wnawn hebddo. Dad oedd yn gwneud y twrci bob 'Dolig, a gwneud y sŵp *leek a potato* a'r *mushroom*. Fydd rhaid i ni ddechrau edrych ar ôl ein hunain rŵan bydd.

Diolch i bawb sydd wedi cysylltu gyda ni fel teulu dros yr wythnosau diwethaf, bu hyn yn gysur mawr i ni, yn enwedig clywed Dad yn cael ei gyfeirio ato fel "dyn annwyl", "dyn lyfli", "dyn cyfeillgar" ac yn "ŵr bonheddig".

Mi wnawn yn sicr dynnu ar y geiriau caredig yma yn ein hiraeth a'n galar wrth gofio amdano.

# CHWILAIR

## ANIFEILIAID





| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | C | W | F | H | R | I | L | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J |
| U | I | S | E | T | V | S | H | E | L | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U |
| Z | M | X | A | F | V | B | A | D | D | W | N | A | P | A | U | Q | U | S | O |
| F | R | R | B | P | F | T | U | Y | Q | Z | Y | G | R | H | C | U | M | W | N |
| O | W | Y | R | R | I | Y | W | W | A | S | Z | N | U | T | F | R | D | X | U |
| P | W | R | O | H | C | Q | L | R | C | H | W | E | O | H | O | W | Y | E | E |
| G | E | O | N | M | H | E | P | T | C | H | T | C | B | G | B | A | C | U | U |
| J | P | L | W | T | M | I | V | V | D | H | C | B | B | F | R | F | F | O | G |
| J | V | I | E | I | H | R | R | X | I | M | D | H | T | T | O | N | S | K | O |
| P | W | R | N | C | C | M | K | C | B | O | R | A | C | X | V | E | R | Y | H |
| S | T | M | R | E | O | F | N | Y | J | D | Z | H | E | B | C | D | W | O | S |
| C | R | A | I | X | G | A | N | I | L | X | J | J | M | A | B | O | W | T | E |
| X | M | D | X | K | R | F | U | P | C | Q | Y | O | I | L | R | G | F | E | R |
| Z | Q | R | O | A | E | C | T | R | G | D | G | W | S | L | Z | Y | E | B | E |
| A | J | K | H | J | W | C | L | F | O | N | L | R | V | O | G | L | J | P | W |
| P | G | A | S | O | I | W | J | A | N | J | Q | U | L | F | S | L | V | T | X |
| E | M | U | G | H | W | S | L | G | E | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z | H |
| K | V | A | G | B | N | K | A | D | A | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I |
| U | M | O | C | H | Y | N | R | O | R | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K |
| D | A | N | T | O | G | W | B | M | D | B | J | R | F | U | N | K | B | Z | E |


Yn y Chwilair mis yma mae enw deuddeg ANIFAIL i'w ddarganfod. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 27 Mehefin. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Mai :-** Algeria; De Affrica; Ethiopia; Kenya; Liberia; Libia; Moroco; Rwanda; Sudan; Tunisia; Uganda; Zimbabwe.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Doris Shaw, Arafa Don; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Dilys Wyn Griffith, Conwy; Eirwen Owen, Erw Las; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; M. A. Jones, Rachub; Olive Williams, Maes-y-Garnedd; Rosemary Williams, Tregarth; Gwen Roberts, Rhosmeirch; Nia Wyn Bagnall, Llandygai; Barbara Anne Conlan, Glanogwen; Carys Parry, Caerhun; Huw Williams, Erw Las; Sandra Howell, Cae Rhosydd, Rachub.

**Enillydd Mai oedd:-** Sandra Howell, 27 Cae Rhosydd, Rachub, Llanllechid LL57 3DF



# Natur o'n Cwmpas



Castell y Geifr ar ysgwydd y Garn, efo Llyn Clud a Llyn Clud Bach islaw.

## Enwau Creaduriaid yn ein Henwau Lleoedd (Rhan 3)

Dyma gyfeirio at ragor o greaduriaid a enwir yn enwau lleoedd ein rhan ni o Eryri.

Mae sawl man yn y mynydd-dir sy'n cyfeirio at y geifr mynydd. Ceir Llwybr y Geifr yng Nghwm Idwal, ac mae dau Glogwyn y Geifr yn y cyffiniau, y naill wrth y Twll Du uwchlaw Llyn Idwal, a'r llall yng Nghwm Perfedd uwchlaw Nant Ffrancon. Yn ogystal, mae dau Gastell y Geifr, y naill ar ysgwydd y Garn, a'r llall yr ochr draw i Foel Grach.

Uwchlaw Nant Ffrancon, ar gwr Craig Braich Tŷ Du, mae craig o'r enw Carreg y Frân, a'r ochr arall i'r Nant, uwchlaw ffermdy Blaen y Nant, mae Coed Cerrig y Frân. Y gigfran, mwyaf tebyg, yw'r frân yn y ddau enw oherwydd mannau creigiog yn y mynydd-dir yw ei chynefin hi, yn wahanol i'r frân dyddyn a'r ydfran.

Yn Llyn Ogwen, yn agos i'r lan gyferbyn ag Aber Brwyn, mae craig wastad o'r enw Carreg y Fulfran. Bydd y mulfrain yn dod i fyny o'r glannau i hela brithyll drwy blymio a'u dal o dan y dŵr. Mae'r enwau eraill ar y fulfran yn rhai diddorol. Bili Dowcar yw un, a daw o gyfuno'r  enw personol 'Bili' a'r gair 'dowcar' sef 'un sy'n plymio ac yn nofio o dan y dŵr'. Enw arall yw Llanc Llandudno, ac mae'n bosib bod yr aderyn wedi cael yr enw hwn am ei fod yn dal ei ben yn ôl fel bod ei big ar i fyny, a'i fod yng ngolwg trigolion cefn wlad yn ffroen-uchel fel llanc trefol.

Cawn gyfeiriad at y gath wyllt yn yr enwau Carreg y Gath (yn Rhiwlas ac yng ngheg Cwm Ffynnon Gaseg ) a Thwll y Gath (eto yng nghheg Cwm Ffynnon Gaseg). Llwyddodd y gath wyllt i dal ei thir mewn rhai lleoedd anghysbell yn yr Alban, ond roedd wedi darfod â bod yng Nghymru erbyn 1880. Mae'n debygol iddi gael ei hela gan ffermwyr a bugeiliaid, hen arferiad fel hela'r bela, y llwynog, y gwalch a'r gigfran, ac yn ystod y 19g cynyddodd nifer y ciperiaid a gyflogid gan y stadau. Wardeiniaid eglwys fyddai'n gyfrifol am gadw cyfrif o'r niferoedd o'r creaduriaid hyn a leddid a'r taliadau a delid i'r helwyr.

Bydd mwy y tro nesaf.

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG  ieuanwyn01@gmail.com  01248 600297.*

# Nyth y Gân

### MERLOD MYNYDD YN Y GAEAF

Lle i ymdrech yw'r llymdra 'r ôl tymor
Hel tamaid i'w fwyta;
Llawr o rew, a phell yw'r ha',
A'u herwau dan luwch eira.



### Y WAWR

Trwy d'wyllwch nos arhosaf i ddyffryn
Ail-ddeffro yn araf
I droi fy ngardd yr harddaf
A dal haul fel dylai haf.

### STRAEON BRO

Rhieni'n adrodd storïau
Fu o flaen tanllwyth o dân;
Y plant yn gwrando yn astud,
A'r dweud yn fywiog a glân.

Mwynhau y storïau oeddynt,
A'r geiriau'n plethu y rhain
Gan lifo yn rhwydd a hyfryd
A'u gwneud hwy'n ddifyr a chain.

Efo'r geiriau yn byrlymu,
Yn rhedeg fel dŵr y nant,
Y straeon hyn ar yr aelwyd
A aethant ar gof y plant.

### YR HEN LYN CORDDI

Hel dŵr o'r ucheldiroedd fu'n ffasiwn,
Hefo'n ffosydd ydoedd;
Yn ddŵr iach, troi corddwr oedd
I lawer o deuluoedd.

### Y GWENYN

Wedi'r gwanwyn daw'r gwenyn i beillio
Mor bwyllog sawl blodyn;
Ei adael y bydd wedyn
A gwnêl yn dda fêl i ddyn.

**Dafydd Morris**

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

**Gan Andre Lomozik**

## RHAN 18

**14 OGWEN TERRACE, BETHESDA**



**John Edwards** a'i wraig Dorothy oedd yn byw yn rhif 14 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871. Roedd John wedi ei eni yn 1825 yn Llanllechid, a Dorothy wedi ei geni yn Llandygái yn 1826. Roedd morwyn yn y tŷ o'r enw Jane Griffiths. Roedd hi'n enedigol o Landygái ac roedd yn 31 oed. Dilledydd oedd John, ond nid oes fawr o wybodaeth amdano yn ymddangos rhwng 1871 a 1879.

Yn y *North Wales Chronicle* dyddiedig Mawrth 29, 1879, mae hysbysiad yn ymddangos am farwolaeth dyn o'r enw John Evans, yn 14 Ogwen Terrace, Bethesda, felly mae'n ymddangos fod John Edwards a'i wraig wedi symud o'r cyfeiriad yma. Yn wir, yng nghyfrifiad 1881 maent yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace, Bethesda.

Yng nghyfrifiad 1871 mae Edward Edwards a'i deulu yn byw yn Nhanygraig, Bethesda. Aelodau'r teulu yw Edward, Ellen, John y mab ac Elizabeth Jane y ferch. Erbyn 1879 mae hysbysiad arall i'w weld yn y *North Wales Express*, dyddiedig Gorffennaf 11, 1879 yn enwi Edward Edwards, 14 Ogwen Terrace, Bethesda fel rheithiwr yn y Llys ym Mangor. Yr un teulu sydd yn byw yn y tŷ yng nghyfrifiad 1881.

Ganwyd Edward yn 1829 yn Llandygái. Ellen oedd ei wraig ac roedd hi yn enedigol o Landygái, ac wedi ei geni yn 1833. Roedd ganddynt un mab o'r enw John a anwyd yn 1861 yn Llandygái, ac Elizabeth y ferch a anwyd yn 1868 yn Llanllechid.

Yn y flwyddyn 1889 gwelwn fod gweddw'r Parchedig H. H. Williams, M.A. diweddar o Melbourne, Awstralia, wedi geni merch bach yn 14 Ogwen Terrace. Beth oedd ei chysylltiad ag Edward Edwards a'r teulu, nis gwn.

Mae'r teulu'n dal i fyw yn rhif 14 yng nghyfrifiad 1891. Nid yw John y mab yn cael ei enwi yn y cyfrifiad, ond mae Elizabeth Jane yno ac yn rhoi ei bywoliaeth fel gwniadwraig, ac yn nodi ei bod yn sengl. Mae'r cyfrifiad yn nodi hefyd mai dim ond Elizabeth oedd yn ddwyieithog. Roedd Jane Hughes yn dal i weini i'r teulu. Roedd John y mab wedi priodi ac yn byw yn Gors, Llandygái, ac yn dilledydd a groser. Fodd bynnag, yng ngholofn Marwolaethau *Y Cymro* dyddiedig Ebrill 21, 1892, cawn y canlynol: Edwards – Ebrill 12, yn 14, Ogwen Terrace, Bethesda, yn 31 mlwydd oed, wedi pythefnos o gystudd trwm a ddioddefodd yn hynod dawel, John, unig fab Edward Edwards, draper. Dim cardiau. (Dymunir i'r papurau Americanaidd gofnodi yr uchod)

Mae Ellen a Edward bellach wedi marw erbyn cyfrifiad 1901. Claddwyd Ellen ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen ar y 19$^{eg}$ o Hydref 1898 yn 67 mlwydd oed, bu Edward farw ddwy flynedd yn ddiweddarach, a chladdwyd ef gyda'i wraig ar y 29$^{ain}$ o Fai 1900, yn 72 mlwydd oed.

Yna yn newyddiadur *Gwalia* ddydd Mawrth, Mehefin 26, 1900 gwelwn yr hysbyseb yma: 'Yn eisiau, Egwyddorwas yn y Drapery. Ymofyner a Mr E. R. Lloyd, (R.E.Lloyd) Draper, Ogwen Terrace, Bethesda' Roedd y cyfeiriad yma yn cael ei alw yn Bee Hive yn ogystal.

Mae'n ymddangos fod Elizabeth Jane wedi briodi gyda gŵr o Dremadog erbyn y flwyddyn yma, ac maent yn byw yn rhif 14, gyda **Robert Ellis Lloyd** yn rhoi ei enw fel pen teulu. Roedd Robert yn 29 oed ac Elizabeth yn 33 oed, Nid oedd ganddynt plant yn y flwyddyn yma, ond roedd morwyn o'r enw Catherine Ann Williams yn byw yn y tŷ gyda hwy. Roedd hi yn 19 oed ac yn enedigol o Fethesda.

Mae adroddiad i'w weld yn *Y Goleuad*, Gorffennaf 24, 1907, o dan y pennawd 'Cronfa y Cartref i Fechgyn yn Bontnewydd' lle mae Elizabeth wedi rhoi cyfraniad o £0-10s-6c at gost y cartref. Mae Robert ac Elizabeth yn dal i fyw yn rhif 14 yn 1911 gyda morwyn newydd o'r enw Catherine Jane Pritchard, o Lanllechid.

**(i'w barhau) mis nesaf rhif 15 Rhes Ogwen**




**Siop R. E. Lloyd, 14 Ogwen Terrace, (Bee Hive) Bethesda ar y chwith eithaf**

# YSGOL TREGARTH

**Llangrannog**
Cafodd blwyddyn 5 a 6 taith i'w chofio draw yn Llangrannog. Er gwaethaf y tywydd garw, roedd y pant wedi cael amser anhygoel. Diwrnodau prysur llawn gweithgareddau yn ystod y dydd, cinio a the blasus a gweithgareddau gyda'r nos. Cafwyd blas o weithgareddau gwahanol fel sgïo, gwibgartio, dringo, rhaffau uchel, nofio a llawer mwy. Diolch yn fawr i staff Llangrannog am yr holl brofiadau a gweithgareddau ac am y llety dros y 3 diwrnod.

**Gweithdy BSL gan gwmni theatr 'Taking Flight'.**
Cafodd dosbarth Ffrydlas y cyfle i ddysgu sgil newydd yn ddiweddar pan ddaeth theatr 'Taking Flight' i'r ysgol i gynnal gweithdy BSL. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu sut i gyfarch ei gilydd, sut i egluro eu teimladau ac ysgrifennu eu henwau drwy arwyddion BSL. Diolch yn fawr i Steph a chriw 'Taking Flight Theatre' am brofiad diddorol a gwerthfawr iawn.



**Aberystwyth**
Aeth tîm rygbi tag genethod blwyddyn 5 a 6 ymlaen i gynrychioli'r sir mewn cystadleuaeth genedlaethol draw yn Aberystwyth. Ar ôl eu llwyddiant yng nghystadleuaeth ysgolion Gwynedd, roedd hi rŵan yn amser i herio eu hunain yn erbyn ysgolion gorau o amgylch Cymru. Chwaraeodd y genethod 4 gem i gyd gan ennill 2 a cholli 2. Yn anffodus , colli'r gem olaf yn golygu eu bod nhw heb fynd ymlaen i'r chwarteri olaf ond mae'r ysgol yn hynod o falch o'r genethod i gyd. Da iawn chi!



**Plas Menai**
Cafodd Blwyddyn 3 a 4 ddau ddiwrnod gwerth chweil ym Mhlas Menai ddechrau'r mis a llond gwlad o brofiadau newydd! Bu'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau e.e. hwylio, padl-fyrddio, dringo, adeiladu den a beicio yr holl ffordd i Gaernarfon i gael hufen iâ. Roedd y tywydd yn fendigedig. Diolch i Staff Plas Menai am yr holl fwyd blasus ac am arwain y gweithgareddau.

**Ymweliad 'Sports for Champions'**
Cafodd yr ysgol ymweliad arbennig yn ddiweddar gan Rebecca Davies, sydd yn rhagori ym maes 'vert skating'. Cafodd yr holl ddisgyblion gyfle i wrando arni yn rhannu ei stori gan ddweud sut wnaeth hi gychwyn sglefrfyrddio cyn mynd yn ei blaen i ennill llawer o gystadlaethau a dod yn bencampwraig yn y maes. Yn dilyn y sgwrs cafodd nifer o'r disgyblion gyfle o gymryd rhan mewn sesiwn 'circuit' gyda Rebecca. Pwy a wyr, efallai bod gwrando arni wedi ysbrydoli rhai o'n dysgwyr i fynd amdani a dod yn bencampwyr rhyw ddiwrnod.

**Sesiwn dysgu Ffrangeg**
Daeth Anne-Laure Castel, mam Luca dosbarth Idwal, draw i'r dosbarth atom i roi ychydig o wersi Ffrangeg i'r disgyblion. Mae Luca yn daletnog iawn ac yn gallu siarad 3 iaith ac roedd y disgyblion yn awyddus i ddysgu rhai geiriau Ffrangeg. Cafwyd amser da yn dysgu sut i gyfarch ein gilydd, enwau bwydydd, rhifau a lliwiau! Diolch iddi am ddod draw atom i roi profiad newydd ac arbennig i'r disgyblion.

**Croeso**
Rydym yn croesawu Mrs Caryl Evans yn nol atom yn dilyn ei chyfnod mamolaeth ac yn diolch i Miss Sera Jones am fod yng ngofal y dosbarth yn ystod y cyfnod yma. Braf fydd cael Miss Jones gyda ni tan ddiwedd y tymor hefyd.


**Contractwyr Trydanol**

**Jones & Whitehead cyf**
Swyddfa Gofrestredig Penrala,
Tregarth, Bangor, Gwynedd,
LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

**STEPHEN JONES**
**TREFNWR ANGLADDAU CYF**
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

### Nain

Llongyfarchiadau i Lester Bath, Ffordd Ffrydlas, ar achlysur hapus o ddod yn nain unwaith eto – i Teleri y tro yma.

### Priodi

Llongyfarchiadau mawr i Jonny a Gwenllian Greenough ar eu priodas yn ddiweddar, hwy oedd y pâr cyntaf i briodi yn Neuadd Ogwen. Mae'r ddau yn hynod o ddiolchgar i bawb am yr holl anrhegion priodas a gawsant ar yr achlysur.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Geraint Saynor a'r teulu, Maes Coetmor. Collodd Geraint ei fam yn Neiniolen ar 3 Mai, sef y diweddar Mrs. Patricia Saynor. Roedd yn fam, mam yng nghyfraith a nain annwyl.
Cydymdeimlwn hefyd, â Mr. a Mrs. Dewi Morgan a'r teulu, Park Villa. Collodd Sharon ei modryb annwyl ddechrau mis Mai. Roedd yn byw yn Pencader.

### Ysbyty

Eto yn ystod y mis a aeth heibio, bu sawl un yn yr ysbyty. Cofion a gwellhad buan i chwi i gyd, sef:- Ian Jones, Stryd Cefnfaes; Raymond Jones, Glanogwen; Irfon Francis, Maes Coetmor; Irfon Hughes, Erw Las; Andrew Roberts, Llain; Gwyn Williams, Carneddi; Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas a Richard Jones, Bryn Caseg.

### Marw

*Glenys Isabel Jones*
Ar 28 Ebrill ym Mhlas Ogwen, ac o Adwy'r Nant, bu farw Glenys Isabel Jones yn 95 mlwydd oed. Roedd gynt o Fangor ac yn briod â'r diweddar Hugh Jones, yn fam annwyl i Derek, Glyn a'r diweddar David a Rhian. Roedd yn fam yng nghyfraith i Lorraine a Gwyndaf, yn nain hoffus i Barry, Ceri, Daniel, Thomas, Dewi, Sioned, Mared, Dion ac Elliott, ac yn hen nain annwyl. Fe'i ganwyd yng Nghilfodan ac fe gafodd ei haddysg yn ysgolion Bethesda. Wedi priodi â Hugh fe ymgartrefodd ym Mangor, cyn symud i Adwy'r Nant yn 1999, ble cafodd gwmni ei dwy fodryb, sef Anti Em ac Anti Blod. Daeth yn aelod yng Nghapel Carmel Llanllechid, ble bu yn selog iawn. Ac yno bu ei hangladd ar ddydd Gwener, 17 Mai. Wedi'r gwasanaeth yng Ngharmel fe'i claddwyd ym mynwent Dinas Bangor. Y Parchg. Dafydd Coetmor Williams oedd yn gwasanaethu a Mrs. Helen Williams oedd wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

### Diolch

Dymuna Tom, Paul, Bryan a'r teulu ddiolch i ffrindiau a chymdogion y diweddar Mrs. Gwendoline Griffiths, 21 Ffordd

## Sioe Dyffryn Ogwen

Braf oedd gweld y sioe yn dychwelyd i gaeau Dôl Ddafydd unwaith eto eleni, a hithau dan heulwen. Cafwyd gwledd rhwng y cystadlu, arddangosfeydd a'r adloniant.



**Wynne ap Iorwerth, Glanrafon Bach, Mynydd Llandygai a enillodd 10 o wobrau yn yr Adran Lysiau. Mi enillodd Wynne Gwpan Goffa Mr. a Mrs. J. Brooks, Carneddi yn ogystal i rhain.**



**Lois Nottingham, Erw Las, Bethesda a'i 16 o wobrau yn yr Adran Goginio! Yn eu plith, Tarian Mabinogion a Chwpan Goffa Mr. a Mrs. J. Kenneth Hughes.**



**Bwyellwyr Gwynedd ar ben ei gêm!**

## DYFODOL EGLWYS GLANOGWEN

Mae lot fawr o drafodaeth wedi bod yn y gymuned am ddyfodol Eglwys Crist, Glanogwen a hoffai'r gynulleidfa sicrhau pawb nad oes yna unrhyw benderfyniad terfynol wedi'i wneud hyd yn hyn. Yn amlwg, fel nifer o sefydliadau, capeli ac eglwysi eraill, mae ein sefyllfa yn ddigon bregus a'n niferoedd yn lleihau a mae rhaid inni fod yn ymarferol a phragmataidd- tra'n cadw at ein ffydd a'n gobaith! Mae costau byw cynyddol wedi effeithio ar bawb, gan gynnwys eglwysi, a mae etifeddu adeilad hanesyddol yn fraint- ac yn faich.

Felly, yn y tymor byr, bydd ein hadeilad ar agor, ein gwasanaethau rheolaidd yn parhau a'n cynulleidfa mor weithgar ag erioed – yn gweddio dros ein cymuned, ein cymdeithas a'r cenhedloedd, am Heddwch a Chyfiawnder yn y byd. Yn y tymor hir, mae 'na fwy o gwestiynau nac atebion, a mae'n rhaid cofio mai nid adeilad sy'n diffinio Eglwys, ond ei phobl.

Os hoffech gefnogi'r Eglwys- dewch ac ymunwch yn ein addoliad ar fore Mercher neu Sul. Os hoffech gyfrannu - cysylltwch â'r Parch Gareth Lloyd neu Caplan Bro, Parch. Sara Roberts. Hefyd, mae cronfa Gofundme (https://gofund.me/aa4010a5) yn dal i fynd, lle mae'r gallu i gyfrannu'n uniongyrchol.

Pob bendith,
Sara.



Ffrydlas, am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y cardiau a'r galwadau niferus, a hefyd am y rhoddion hael. Casglwyd £1,240.25 i'r RNIB (Royal National Institute of Blind People).

**Diolch**

Dymuna Joe Hughes, Ffordd Ffrydlas, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cyfarchion caredig a'r rhoddion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar 4 Mai.

**Ysgol Sul Capel Jeriwsalem**
**O Gymru i Alabama**

Mae criw'r Ysgol Sul wedi bod yn cael hanes y '*Wales Window*' yn y 16th Street Baptist Church yn Birmingham (Alabama), sef ffenestr liw a roddwyd yn rhodd o Gymru yn dilyn ymosodiad hiliol ddifrifol ar yr eglwys yn y 60au. Mae'r plant wedi cael eu hysbrydoli i greu eu ffenestri lliw eu hunain. Mae'r plant hefyd wedi dysgu am waith Cymorth Cristnogol ac wedi cael taith fyd natur ym Mharc Meurig. Os gwyddoch am rai fyddai'n dymuno ymuno yn y gweithgareddau, cysylltwch â Menna ar 07919 034532.

Eglwys Crist, Glanogwen
Clwb Cant yr Apêl
Enillwyr mis Mai:
£30 – Rhif 10 – Mrs B. Dignam
£25 – Rhif 81 - Mrs Ceri Medway

Llongyfarchiadau i'r enillwyr! Tynnir y gwobrau lwcus yn yr Eglwys ar y bore Mercher olaf o bob mis yn ystod y baned;

**Amlenni Rhodd**

Diolch i bawb am eu cyfraniadau cyson dros y flwyddyn trwy'r amlenni wythnosol – mae'r cyfraniadau hyn yn holl bwysig tuag at gostau'r eglwys. Cofiwch hefyd gysylltu os oes gennych amlenni ac yn methu mynychu'r eglwys ar hyn o bryd, gallwn alw amdanynt.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bawb o'n haelodau a'n hanwyliaid sydd yn wael neu'n gaeth i'w cartref, hefyd i bawb sydd yn galaru am berthnasau annwyl.

Cofiwch adael i ni wybod os am gael ymweliad neu Gymun Cartref.

Gwasanaethau Eglwys Crist

Pob Sul – Cymun Bendigaid am 11.00

Pob Bore Mercher am 10.30 y bore – Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi, a phaned a sgwrs i ddilyn.

Croeso cynnes fel arfer i bawb i'r holl wasanaethau.

**Manylion cyswllt**

Gellir cysylltu a'r ficer, y Parchedig Ddoctor Gareth Lloyd ar 01248 361521 ar unrhyw fater yn ymwneud a'r eglwys, gan gynnwys trefnu priodas, angladd neu fedydd.

Hefyd mae'r Parchedig Sara Roberts yn offeiriad cynorthwyol ac ar gael ar 07967652981.

## Adroddiad Cyngor Cymuned Bethesda – Mai 2024

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol a chyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 23ain o o Fai yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol drwy Zoom.

**Cadeirydd Newydd 2024-25**

Yn ystod y cyfarfod blynyddol, derbyniwyd adroddiad gan Gadeirydd 2022-24, Cyng. Walter Williams ar holl lwyddiannau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn diwethaf. Yn ystod y cyfarfod hwn, etholwyd y Cyng. Mary Jones yn gadeirydd am y flwyddyn 2024/25. Cymerwyd yr awenau gan y Cadeirydd newydd, a diolchwyd i'r Cyng. Walter Williams am ei holl waith fel Cadeirydd yn ystod y flwyddyn diwethaf.



**Y cyn-gadeirydd, y Cyng. Walter Williams gyda'r Cadeirydd newydd, y Cyng. Mary Jones**

**Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn**

Yn dilyn cais gan y Cyng. Paul Rowlinson, penderfynwyd bydd y Clerc yn ceisio cael caniatâd gan Cyngor Gwynedd i osod cysgodfan bws ger Maes Bleddyn. Pe bai'r cyngor yn llwyddo i gael caniatâd, cytunwyd y byddai'r Clerc yn edrych i gael prisiau.

**Diffyg Plismona ym Methesda**

Adroddodd y Clerc nad oedd presenoldeb yr heddlu yn ddigonol ar stryd fawr Bethesda. Mae aelodau staff Partneriaeth Ogwen wedi derbyn sawl cwyn gan aelodau o'r cyhoedd. Nodwyd y Clerc ei bod eisoes wedi cysylltu gyda Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen am y mater. Cytunwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu at Inspector Ian Roberts, Heddlu Gogledd Cymru.

**Llongyfarch Pwyllgor Carnifal Bethesda**

Cynhaliwyd y Carnifal eto eleni ar ddydd Sadwrn, 18fed o Fai, a braf oedd gweld y stryd fawr yn lliwgar ac yn orlawn o bobl. Daeth yr haul allan a chafodd y gymuned diwrnod i'w gofio wrth wylio'r parêd, ac yno ar gaeau Dol Dafydd. Hoffai'r Cyngor ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor y Carnifal am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn. Mae crin dipyn o waith ei angen er mwyn gwneud y diwrnod yn bosib, gyda llawer o ddigwyddiadau hel arian yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau mawr i'r pwyllgor a diolch anferthol am ddod â'r gymuned gyfan ynghyd i ddathlu ar y diwrnod mawr.




**Pwyllgor y Carnifal yn ei gwisgoedd lliwgar**
**Chwith i dde: Julie, Anwen, Elen, Donna, Iona, Ceri a Sue.**

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 27ain o Fehefin am 18.30 yn rhithiol dros Zoom.



# CROESAIR




**AR DRAWS**

1 Cofir y dewrion ar hon ddydd y cadoediad (5)
4 Hyll a garw rywsut medd yr arweinwyr (4)
7 Glaw mân tafodieithol (4)
8 I dorri ar unigrwydd yn aml (8)
9 Fel yr un dysgedig sydd mewn cae ger tre'r cofi (4)
10 Het silc neu gap stabal (7)
12 Smyrff ar y to yn brolio'i hun (7)
16 Roedd deg ci, oll yn methu dod o hyd i'r ddafad a grwydrodd (7)
18 O flaen plentyn mae heb frawd na chwaer, ond ar ei ôl heb ffrind chwaith (4)
20 Math o lythyren (8)
21 Ar gychwyn y frwydr ac ar ei hôl i gael gair hud y swynwr (4)
22 Teimlad hynod o gryf yn lle gwaith 9 Ar Draws, heb y canol (4)
23 Tatws i'w plannu (5)

**I LAWR**

1 Ble mae "campwaith dewin hynod" yn ôl yr englyn enwog i'r cylch mwyaf (6)
2 Cer i fyd cywir yng nghartref yr offeiriad (7)
3 Ai bwgan yn derbyn bet ydi hwn (4)
4 Malodd hen greiriau dow-dow wrth ei bwysau (8)
5 Llwydaidd a di-liw (5)
6 Cadw rhag eraill fel y sir fwyaf gogleddol (5)
11 Yn gwneud ei waith i'r dim (8)
13 Haul sy'n llosgi'r croen (7)
14 O'th sach daw pob math o rwtsh di-werth (5)
15 Go daer am gadw'r ysgol fach heb gau am byth (6)
17 Un o eglwysi Bangor (5)
19 Yr isaf o'r nodau ar y raddfa sol-ffa (1,3)

**ATEBION CROESAIR MAI 2024**

**AR DRAWS** 1 Teml, 3 Tomen, 7 Swynwr, 8 Cysgod, 9 Llechfaen, 10 Adyn, 11 Ymadroddus, 16 Ewyn, 17 Gwendid, 19 Olrhain, 20 Ysgaru, 21 Dosio, 22 Sian


**I LAWR** 1 Tywyllu, 2 Mynych/Mynach, 3 Tocyn, 4 Masnachu, 5 Nionyn, 6 Triawd, 12 Mantais, 13 Offeryn, 14 Llwglyd, 15 Aderyn, 17 Gwnio, 18 Dogni

Wel am ddryswch! Trwy rhyw amryfusedd o'm rhan i achosodd cliw 2 I Lawr fod tua hanner ohonoch wedi cynnig yr ateb 'mynach' a'r hanner arall 'mynych'. Wedi ystyried, rwyf wedi penderfynu derbyn y ddau ateb y tro yma. Gobeithio na fydd protestiadau! Yr unig gamgymeriad arall oedd 'gwen' (16 Ar Draws) yn hytrach na'r ateb cywir 'ewyn'.

Felly dyma'r rhai gwblhaodd y croesair yn gywir : Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Gareth Oliver, Tregarth; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Gill King, Mynydd Llandygai; Iona Williams, Llanddulas; Huw a Gwenno, Gerlan; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Doris Shaw, Margaret Williams, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; M. A. Jones, Stella Dafis, Rachub; Judith Hughes, Llangoed; Wendy Eccles, Llanllechid; John Ffrancon Griffith, Abergele; Dilys Parry, Rhiwlas

Yr un sy'n derbyn y clod a'r wobr y tro yma ydi Margaret Williams, 4 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN. Da iawn chi.

Atebion erbyn 5ed Gorffennaf 2024 ***fan bellaf*** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Mehefin', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD




# YSGOL DYFFRYN OGWEN

Llongyfarchiadau i flwyddyn 8 am eu llwyddiant yn yr ‘UKMT Junior Mathematical Challenge’. Bu’r disgyblion yn cymhwyso eu sgiliau mathemategol i broblemau cymhleth a diddorol mewn cystadleuaeth sy’n cael ei chynnal ar draws y DU gyfan. Y rhai a ddaeth i’r brig oedd Gruff (gwobr aur), Ethan a Harri (gwobr arian) ac Emily, Elin, Alena, Caio a Xander (gwobr efydd).



O ganlyniad i sgôr rhagorol Gruff yn y ‘Junior Mathematical Challenge’, mi fydd yn cystadlu yn y rownd nesaf, y ‘*Junior Kangaroo*’ ym mis Mehefin. Tipyn o gamp! Rydym yn falch iawn ac yn dymuno pob lwc iddo!




**Adran Gelf**
Mae Ela Lois Williams disgybl blwyddyn 7 wedi ennill cystadleuaeth yr adran gelf drwy greu clawr albwm i’r band Fleur dy lys.

**Adran Dechnoleg**
Mae disgyblion blwyddyn 8 wedi bod yn blasu llysiau anghyfarwydd iddynt fel asbaragws, cêl wedi ei rostio, afocado a phwmpen cnau menyn (butternut squash). Pawb wedi mwynhau’r profiad o flasu llysiau gwahanol ac yna eu disgrifio gan ddefnyddio ansoddeiriau.



**Cystadleuaeth Coginio**
Ar b’nawn ddydd Mercher 22ain o Fai fe gafodd disgyblion blwyddyn 9 y cyfle i gystadlu yng Nghystadleuaeth Coginio y flwyddyn fel rhan o’u diweddglo i’r pwnc yn CA3. Roedd angen iddynt baratoi a choginio pryd un cwrs iachus a’i goginio o fewn 50 munud. Fe wnaeth oddeutu 20 disgybl gystadlu gan greu prydau deniadol ac uchelgeisiol. Roedd angen iddynt weithio’n annibynnol a meddwl am sut i gyflwyno eu pryd ar blât er mwyn bod yn llwyddiannus.

Yr enillwyr yn grŵp un oedd 1af - Osian Cross, 2ail - Harri Hinchliffe a 3ydd - Ethan Morgan.

Enillwyr grwp dau oedd 1af - Elin Thomas, 2ail - Steffan Hughes a 3ydd - Gwilym Viera. Llongyfarchiadau mawr i bawb wnaeth gymryd rhan!

**Iechyd a Lles**
Diolch i dîm Ieuenctid Gwynedd am gynnal sesiynau iechyd a lles i ddisgyblion blwyddyn 7-9 fel rhan o weithgareddau ‘Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl’. ‘Roedd y disgyblion wedi mwynhau’r profiadau wrth ddysgu am gyffuriau, digartrefedd, straen a stereoteipio iechyd meddwl.

**Adran Addysg Gorfforol**
Pêl droed cwpan Gwynedd dan 13: Llongyfarchiadau i fechgyn dan 13 am eu perfformiadau yn ystod cystadleuaeth cwpan Gwynedd. Y bechgyn wedi gorffen ar frig eu grŵp ar ôl ennill 5 allan o’u 6 gêm, ond wedi colli yn y rownd gyn-derfynol ar giciau o’r smotyn.

Criced genethod: Rydym yn falch iawn o dimau criced ein genethod yn dilyn nifer o berfformiadau da yng nghystadleuaeth ysgolion Gogledd Orllewin Cymru. Tîm dan 15 wedi gorffen yn ail ac yn mynd ymlaen i’r rownd nesaf yn erbyn ysgolion Gogledd Cymru. Da iawn pawb!

Rygbi 7 bob ochr yr Urdd: Llwyddiant i dimau rygbi 7 bob ochr yr ysgol ym Mae Colwyn gyda 3 thîm yn cyrraedd y rowndiau terfynol. Ymdrech ac ymroddiad gwych gan bawb. Llwyddodd ein bechgyn dan 13 i ennill y gystadleuaeth, a roedd ein genethod dan 14 a’r genethod dan 12 yn anffodus i golli yn y rownd derfynol.

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
**ebost:** sales@jrscaffolding.co.uk
**Ffôn/Ffacs:** 01248 601754
07770 568743 (symudol)

# Timau Dawnus y Dyffryn

**(Tîm dan 14)**

Cafwyd penwythnos arbennig i dimau ifanc Clwb Rygbi Bethesda fis Mai gyda rowndiau terfynol y Gogledd yn cael eu cynnal ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Llwyddodd y tim dan 14 i ennill y bowlen gan guro Bae Cowlyn 32-7. Wedi tymor caled roedd hyn yn wobr i'r hogia am eu hymdrech ac ymroddiad. Dywedodd Geraint Williams, un o'r hyfforddwyr: "Roedd o'n gret i'r hogia gael gwobr am bob dim mae nhw wedi wneud i'r tim flwyddyn yma. Dim pawb sy'n cael y cyfle i chwarae mewn ffeinal felly mi fydd pob un ohonyn nhw yn falch iawn o hyn."





**(Tîm Dan 12)**

Roedd y tîm dan 12 wedi brwydro i'r rownd terfynol hefyd gan chwarae yn arbennig i guro Y Trallwng a Llangefni ar y ffordd. Colli bu ei hanes yn y ffeinal yn erbyn Rhuthun yn anffodus ond cafodd pawb brofiad arbennig. Dywedodd Dylan Hughes yr hyfforddwr: "Mae ganddom ni dîm bach da yn datblygu and dwi yn falch o bob un o'r hogia' sydd wedi gweithio mor galed dros y misoedd diwethaf i godi'r safon drwy'r tymor. Da iawn pawb."

Diolch mawr i'r hyfforddwyr Osian Jones, Geraint Williams, Gerallt Jones, a Sichon Williams am eu gwaith hyfforddi di-flino trwy'r tymor. Diolch hefyd i'r rhieni am eu cefnogaeth barhaus. Ond, mae'r diolch mwyaf yn mynd i'r hogiau am eu dyfalbarhad, eu brwdfrydedd a'u gwaith caled dros y tymor.



# Sêr y Bel Gron

Buodd llwyddiannau ymysg yr ieuenctid ym myd y pêl-droed hefyd yn ddiweddar. Ar ddydd Sadwrn, yr 2il o Fehefin, cynhaliwyd diwrnod wobrwyo Academi Pêl-Droed Caernarfon yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Yn eu plith, yr oedd Max Williams o Fethesda a Mabon Njabulo Stammers o Rachub. Enillodd Max wobrwyon Chwaraewr y Chwaraewyr a Chwaraewr y Rhieni (dan 13), tra buodd Mabon dderbyn wobr Chwaraewr yr Hyfforddwr (dan 14). Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch!

# Pencampwr MMA

Efallai y gwelsoch yn ddiweddar ar raglen Heno wyneb cyfarwydd o'r Dyffryn yn ymddangos ar y sgrîn. Mae Nathan Lambert o Dregarth wedi bod yn profi llwyddiannau mawr ym myd y cwffio MMA yn y blynyddoedd diwethaf. Ei lwyddiant diweddaraf yw cipio teitl Ymladdwr MMA Amatur Gorau Ewropeaidd. Da yw gweld un o hogiau'r Dyffryn yn llwyddo. Pob lwc at y dyfodol, Nathan.

